
WAG10-10583


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020


www.cymru.gov.uk


## Strategaeth Fwyd i Gymru











**Rhagfyr 2010**

'Mae Cymru'n prysur ennill enw da a hygrededd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, am ei sector bwyd a diod a lletygarwch blaengar'



ISBN: 978 0 7504 5830 6
Argraffwyd y ddogfen hon ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Rhagfyr 2010 Hawlfraint y Goron





## RHAGAIR

**Elin Jones AC**
Gweinidog dros Faterion Gwledig

Mae bwyd yn hanfodol i bob un ohonom, yn ogystal â bod yn ddiwydiant allweddol. Mae'n creu gwaith ac mae'n hanfodol i'n diogelwch a'n lles. Mae'n ffynhonnell iechyd da ac yn rhan o'n diwylliant. Mae Cymru'n prysur ennill enw da a hygrededd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, am ei sector bwyd a diod a lletygarwch blaengar. Diolch i'n cynhyrchwyr, ein daearyddiaeth unigryw, ein hinsawdd a'n harferion ffermio, gall Cymru frolio amrywiaeth o fwydydd o ansawdd uchel, o'n cig oen a chig eidion eiconig i gawsiau a bwyd y môr o Gymru. Mae'r diwydiant bwyd a diod yn bwysig i'r economi a phobl Cymru; mae sector bwyd-amaeth y DU'n cyfrannu 7% (£79.4 biliwn) at Werth Ychwanegol Crynswth y DU. Trwy gynllunio gwybodus a gofalus a thrwy weithio gyda'n gilydd, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu hwn, ac rwy'n gwbl hyderus y gallwn ni adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma er mwyn sicrhau diwydiant ffyniannus, datblygol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae materion cymhleth a thrawsbynciol ynghylch bwyd, fel sicrhau bod pawb yn parhau i gael y bwyd sydd ei angen arnynt, ac mae hyn yn gofyn am ddiwydiant sy'n amgylcheddol ac yn economaidd gynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll pwysau byd-eang ac ateb i'r heriau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Mae materion bwyd yn allweddol i bob un ohonom fel defnyddwyr, ledled y diwydiant, ac fel Llywodraeth. Mae ailgysylltu â bwyd a'r ffordd y caiff ei gynhyrchu'n neges sylfaenol sy'n ymledu i bawb sy'n ymwneud â dyfodol cyflenwad bwyd Cymru. Mae'r Strategaeth hon yn gosod y cyfeiriad cyffredinol - ni all drafod pob maes polisi yr effeithir arno mewn manylder. Fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, rwy'n awyddus i weld Cymru'n gwneud ei gorau glas i sicrhau system fwyd gynaliadwy sy'n gwireddu'n blaenoriaethau economaidd ac ecolegol. I gyflawni hyn, rhaid i ni estyn allan at bob rhan o'r Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i rannu agendâu a gwneud cysylltiadau gwell.

Daw 31% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr UE o'r gadwyn fwyd (17% o allyriadau Cymru), ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â hyn. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn geisio unioni'r anghydbwysedd hwn - trwy geisio defnyddio bwyd lleol, bwyta bwydydd tymhorol, a lleihau taith bwyd gallwn leihau'r allyriadau carbon. Mae angen i ni hefyd geisio lleihau ein deunydd pacio bwyd sy'n cyfrannu at wastraff a thirlenwi a chreu mwy o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Er mwyn amlinellu fy ymrwymiad i'r Strategaeth Fwyd drosfwaol hon i Gymru, gofynnais i'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP) i weithio gyda swyddogion fy adran ac adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â chyda'r diwydiant a defnyddwyr, i edrych ar y ffordd orau o gydbwyso'r her o gynhyrchu mwy o fwyd a'r gofyn am ynni gyda'r angen i warchod ein hamgylchedd, yn y dyfodol agos ac yn yr hirdymor.

Mae'r Strategaeth hon yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dyfodol bwyd i Gymru ac o Gymru ac mae'n amlinellu ein hymrwymiad clir i'r egwyddorion sylfaenol allweddol o Gynaliadwyedd, Gwytnwch, Cystadleurwydd a Phroffidioldeb. Mae'r Strategaeth yn cynrychioli newid mawr ac uchelgeisiol gan ei bod yn rhoi cydnabyddiaeth ddyfnach o'r system fwyd ehangach wrth benderfynu ar y cyfeiriad gorau i'r diwydiant.

Bydd cydweithredu, cydweithio a chael y diwydiant i gymryd rhan yn allweddol i lwyddiant ein gweledigaeth, a dyma pam rydym ni wedi cysylltu'n agos â phortffolio pob Gweinidog, gan weithio gyda'm cydweithwyr ym meysydd iechyd, cyllid, menter, addysg a chynaliadwyedd i ddatblygu dull cydlynus a fydd yn cael ei integreiddio ar draws pob maes gwaith.

Ni all y Llywodraeth ar ei phen ei hun yrru'r agenda hon. Mae yna eisoes enghreifftiau tan gamp o weithio mewn partneriaeth yn sector bwyd a diod Cymru, a chredaf yn gryf fod gan y diwydiant, trwy gydweithredu parhaus, ddyfodol llewyrchus o'i flaen a'r gallu i sbarduno newidiadau sylfaenol a fydd yn diogelu dyfodol y diwydiant ac yn cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy i bobl Cymru heddiw, ac ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Rydym wedi cymryd y cam hwn o newid mawr gyda'n gilydd. Rwy'n gobeithio bellach y gwnaiff pawb a gyfrannodd yn parhau i gymryd rhan gyda ni er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gweithredu sy'n dilyn y Strategaeth drosfwaol hon yn dangos y ffordd orau ymlaen.



**Elin Jones AC**
Gweinidog dros Faterion Gwledig







## RHAGAIR

**Dr. Haydn E Edwards**
Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod

Datblygwyd y Strategaeth hon drwy bartneriaeth waith agos rhwng y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP)[1] a Llywodraeth y Cynulliad. Comisiynwyd tîm BRASS[2] i helpu'r broses trwy gasglu tystiolaeth i gynghori'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfeiriad y diwydiant yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfodydd a gweithdai niferus i hwyluso datblygiad y strategaeth rhwng y Bartneriaeth a swyddogion. Mae'r gefnogaeth i'r Strategaeth gan Weinidogion ym mhob rhan o'r Llywodraeth yn fesur o bwysigrwydd ein diwydiant bwyd, a bydd yn hanfodol inni allu ei rhoi ar waith. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus eang a llawn ar y Strategaeth, gan gynnwys digwyddiadau rhanbarthol â rhanddeiliaid a chyfarfodydd cyhoeddus, gyda thros 100 o ymatebion yn dod i law.

Fel Cadeirydd y Bartneriaeth, rwy'n ddiolchgar am waith pawb fu ynghlwm â'r gwaith ac am eu cyngor a'u cyfraniadau gwych a'u brwdfrydedd amlwg dros sicrhau'r system gyflenwi bwyd orau bosibl, sydd mor hanfodol i les holl bobl Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi hefyd yr ymrwymiad i fabwysiadu agwedd ehangach a mwy integredig at fwyd, oherwydd yn y pen draw, drwy hynny y cawn ni a'n diwydiant y dyfodol tymor hir gorau.

Mae'r ffocws ar fwyd yn cynnwys buddiannau proseswyr, manwerthwyr, y gwasanaethau bwyd yn ogystal â chynhyrchwyr cynradd, ac mae eu llwyddiant parhaus a'u datblygiad nhw'n allweddol i ddyfodol y diwydiant. Mae'r Strategaeth hon yn ymwneud yn uniongyrchol â dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn* (Mai 2009) sy'n amlinellu'r cyfeiriad polisi a fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer diwydiannau cynhyrchu bwyd fferm a thir ac amgylchedd cefn gwlad Cymru tan 2020. Yn unol â hynny, mae'r Strategaeth yn gosod llwybr pendant ar gyfer y cynlluniau gweithredu sydd eisoes wedi'u llunio, ac mae'n rhoi cyfeiriad uchelgeisiol a heriol ar eu cyfer ar gyfer y dyfodol. Mae'r Strategaeth Fwyd yn adlewyrchu hefyd *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009) ac Ein Dyfodol Iach (2009)*. Mewn sawl ffordd, mae'r Strategaeth fwyd hon yn ymestyn yn ehangach i gwmpasu sawl rhan o gymdeithas a'r diwydiant, yn ogystal ag adrannau amrywiol Llywodraeth Cynulliad Cymru – mae meysydd iechyd, addysg, hyfforddiant, adfywio economaidd ac ati oll wedi bod yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth.

Mae'r cyfeiriad yma'n un radical ac yn mynd i'r afael â'r her o sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y bwyd fforddiadwy ac iachus sydd ei angen arnynt, tra'n sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio er mwyn nodi a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd wrth iddynt godi. Rhaid rheoli'r heriau yng nghyd-destun ein safle yn y DU – fel Aelod-wladwriaeth o'r UE a'r farchnad sy'n troi'n gynyddol fyd-eang sydd ar waith yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

[1] Gweler Atodiad 1 am fanylion
[2] Gweler Atodiad 2 am fanylion

Diben y Strategaeth yw gwneud pawb yn fwy ymwybodol o faterion bwyd. Rwy'n ffyddiog y bydd y Strategaeth yn ychwanegu at y drafodaeth ynghylch blaenoriaethau ac yn rhoi mwy o bwyslais ar y thema o feithrin cysylltiadau. Rwy'n hyderus y byddwn yn gwneud yn fawr o'n hamryw gryfderau i sicrhau diwydiant bwyd mwy hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol hirdymor. Gallwn ddathlu ein cynnydd hyd yma, ond mewn byd sy'n newid byth a hefyd mae angen i ni fod mewn sefyllfa i wynebau heriau newydd. Mae'r strategaeth hon yn ein paratoi ar gyfer y dyfodol hwnnw.



**Dr. Haydn E Edwards**
Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod





## CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn y gorffennol, yr hyn rydym wedi'i ddisgwyl gan y system fwyd yw'r gallu i ddarparu symiau mawr o fwyd o ansawdd am bris rhesymol i gymaint o bobl â phosibl ac ar hynny y bu'r ffocws. Serch hynny, mae effaith ein system fwyd ar yr amgylchedd, iechyd ac ar gymdeithas wedi dod yn fwy a mwy amlwg ac mae'r pryderon am ddiogelwch ein cyflenwadau bwyd wedi cynyddu.

Mae'r pwysau ar dir, dŵr, ynni, poblogaeth a bioamrywiaeth am adnoddau eisoes yn drwm ac mae'r her anferthol i addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, a'r gystadleuaeth am adnoddau yn cynyddu'r pwysau hwnnw. Er bod y problemau hyn ar yr olwg gyntaf yn amherthnasol i faterion bwyd domestig Cymru, rhaid i'n sector bwyd ystyried ac ymateb i'r datblygiadau hyn er mwyn gallu tyfu'n fwy llewyrchus a pharhau'n berthnasol i'r defnyddiwr, sef diben y sector, yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Strategaeth Fwyd hon yn cymryd y pwysau a'r cymhlethdodau hyn i ystyriaeth i hyrwyddo datblygiad y sector dros y deng mlynedd nesaf, ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd y ddaw â budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru.

### Golwg gyffredinol ar y prif negeseuon

Mae'r Strategaeth Fwyd hon i Gymru – *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020* – yn cynnig gweledigaeth eang o le bwyd ym mywyd Cymru, ac mae'n gyfrwng i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â bwyd. Yn sail iddi y mae egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gynhyrchu a defnyddio bwyd.

Mae'r Strategaeth yn rhoi cyfeiriad clir i ddiwydiant bwyd Cymru iddo allu tyfu mewn ffordd gynaliadwy a phroffidiol. Mae'n ystyried pynciau trawsffiniol fel iechyd, diwylliant bwyd ac addysg, diogelu'r cyflenwad bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygu cymunedol, hyn oll i roi sail integredig i bolisi bwyd yng Nghymru.

Y gobaith yw y bydd agwedd integredig o'r fath yn magu system fwyd wytnach ac yn cryfhau'r economi fwyd yng Nghymru, gan feithrin galluoedd a chapasiti busnesau bwyd i gystadlu'n effeithiol yng Nghymru a thu hwnt.

Er bod y Strategaeth Fwyd newydd yn ategu'r agweddau yn ein polisi '*Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad*' sy'n ymdrin â datblygu marchnadoedd, mae hi o raid yn ymwneud hefyd â rôl ehangach bwyd ar draws llawer o feysydd eraill y bydd yn rhaid inni eu cydnabod i allu datblygu'r marchnadoedd hyn. Yn hynny o beth, mae'n ymgorffori '*Ein Dyfodol Iach' a 'Cymru'n Un Cymru Un Blaned*'.

Gosod y cyfeiriad cyffredinol y mae'r Strategaeth – mae'n amhosibl iddi drafod yn fanwl bob maes polisi y bydd yn effeithio arno. Mae'r Strategaeth, er hynny, yn cynnig fframwaith ar gyfer ein cynlluniau bwyd presennol, fel y rheini ar gyfer garddwriaeth, cig coch, organig, godro, cyrchu lleol, twristiaeth fwyd a physgodfeydd, ac yn sail ar gyfer cynlluniau i wireddu ein dyheadau. Mae'r Strategaeth yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd, ond bydd y cynlluniau i'w rhoi ar waith yn cwmpasu cyfnodau llai.

Mae'r Strategaeth a'r cynlluniau fydd yn ei dilyn i'w rhoi ar waith yn her i'r Llywodraeth a'r diwydiant. Ni all y Llywodraeth ar ei phen ei hun fwrw'r agenda hon yn ei blaen. Mae yna eisoes enghreifftiau tan gamp o weithio mewn partneriaeth yn sector bwyd a diod Cymru. Trwy gydweithio'n ddiflino â'r diwydiant, gallwn sicrhau dyfodol llewyrchus a sbarduno newidiadau sylfaenol a fydd yn gwella'r diwydiant yn ogystal â sicrhau bod bwyd i bobl heddiw a'r cenedlaethau i dddod yn cael ei gynhyrchu mewn modd cynaliadwy.

### Y wybodaeth ddiweddaraf am system fwyd Cymru

Mae system fwyd Cymru ynghlwm wrth systemau Prydain ac Ewrop, ac mae'r cyd-destun bydeang ehangach yn dylanwadu'n drwm arni. Mae galw felly hefyd am bolisi integredig er mwyn inni oll allu cyfrannu at ddatblygu diwydiant llwyddiannus a byrlymus i wella lles holl bobl Cymru, ein heconomi a'n hamgylchedd naturiol.

Tri chategori sy'n parhau i ddominyddu yng Nghymru: cig eidion, cig oen a godro. Er bod y sectorau hyn yn gyfrifol am dri chwarter allbwn amaethyddol y wlad, mae dal cyfleoedd i'w datblygu ac am gyfuniadau cyflenwi bwyd gwahanol a mathau eraill o gynhyrchu amaethyddol, fel garddwriaeth.

Mae systemau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu lleol yn cyd-fodoli â sector allforio a ddominyddir gan gwmnïau mawr sy'n rheoli cyfleusterau prosesu sylweddol. Gall y ffordd y caiff y rhain eu hintegreiddio fod yn bwysig ar gyfer datblygu mwy o farchnadoedd i gynhyrchwyr a gwella'r cyflenwad o ddeunydd craidd i broseswyr.

### Strwythur y Strategaeth Fwyd: Sbardunau newid

Thema'r Strategaeth Fwyd yw meithrin cysylltiadau a chapasiti. Mae'n amlinellu amcan a'n hymrwymiad clir i egwyddorion:

- Cynaliadwyedd,
- Gwytnwch,
- Y gallu i gystadlu, a
- Phroffidioldeb.

Y pedwar amcan hwn yw'r egwyddorion fydd yn llywio ein gweithgarwch.





I roi ffocws i gyfeiriad y Strategaeth ac i'n helpu i'w rhoi ar waith, rhennir dyheadau'r Strategaeth yn bum sbardun newid. Bydd unrhyw weithgarwch o fewn meysydd y pum sbardun yn gorfod cyd-fynd â'n pedwar amcan.

Mae'r sbardunau dros newid yn cael eu rhestru isod, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer pob sbardun:

- **Datblygu'r Farchnad**
  - Marchnata'n well i ddatblygu marchnadoedd domestig ac allforio;
  - Datblygu brand Cymreig cryfach;
  - Cryfhau'r cysylltiad â marchnadoedd a sbarduno marchnadoedd lleol a rhanbarthol; a
  - Hyrwyddo menter entrepreneuriaid.
- **Diwylliant Bwyd**
  - Rhoi mwy o rym i'r dinesydd a'r defnyddiwr trwy eu gwneud yn fwy gwybodus;
  - Hyrwyddo galw cynaliadwy; a
  - Chysylltu diwylliant bwyd â marchnata.
- **Cynaliadwyedd a lles**
  - Datblygu dulliau cynhyrchu a chadwynau cyflenwi sy'n ecolegol effeithiol;
  - Lleihau gwastraff bwyd; a
  - Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu i dechnolegau cynaliadwy a rheoli gwastraff.
- **Cadwyn Gyflenwi Effeithiol**
  - Cefnogi entrepreneuriaid;
  - Datblygu sgiliau trwy'r gadwyn cyflenwi bwyd;
  - Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu yn y gadwyn fwyd a rhannu gwybodaeth yn effeithiol;
  - Cefnogi arloesedd a datblygu marchnadoedd arbenigol; a
  - Chefnogi cydweithio.
- **Integreiddio**
  - Gwneud i'r Strategaeth Fwyd weithio ar bob lefel o'r Llywodraeth;
  - Cyfrannu at newid y fframweithiau rheoliadol; a
  - Defnyddio dulliau newid 'ysgafnach'.

### Y camau nesaf: Rhoi'r Strategaeth ar waith

Rydym wedi cytuno yn y Strategaeth ar ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol ac ar ein prif ymyriadau. Byddwn yn datblygu cynllun ar y cyd â'n partneriaid yn y diwydiant i'w rhoi ar waith ac i fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen. Mae prif elfennau hynny yn cynnwys yr angen i (a) ddatblygu sylfaen gadarn ac agored o dystiolaeth; (b) i weithio'n glos â phrosesau eraill i ddatblygu dangosyddion; (c) creu proses ar gyfer adnewyddu strategaeth; ac (ch) i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill i glustnodi eu cyfran nhw yn y gwaith.






**Rhagair**
Gweinidog dros Faterion Gwledig 01

**Rhagair**
Gadeirydd y Bartneriaeth ar Fwyd a Diod 03

**Crynodeb Gweithredol** 05

**Pennod 1**
Cyflwyniad 10

**Pennod 2**
Gweledigaeth ar gyfer Bwyd yng Nghymru yn 2020 13

**Pennod 3**
Pam mae angen Strategaeth Fwyd arnom? 15

- *(a) Y cyd-destun byd-eang* 16
- *(b) Cymru yng nghyd-destun y DU* 17
- *(c) Allbwn cynhyrchiant cynradd a chapasiti* 19
- *(ch) Cyflogaeth a gwerth economaidd ychwanegol mewn amaethyddiaeth a'r sector bwyd* 22
- *(d) Y gadwyn gyflenwi bwyd a bwyta* 25
- *(e) Pam mae angen Strategaeth Fwyd arnom – crynodebi* 29

**Pennod 4**
Nodau'r Strategaeth Fwyd 31

**Pennod 5**
Sbardunau Strategol Allweddol 33

- *(a) Datblygu'r Farchnad* 37
- *(b) Diwylliant Bwyd* 44
- *(c) Cynaliadwyedd a lles* 50
- *(ch) Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi* 60
- *(d) Integreiddio* 66

**Pennod 6**
Gweithredu – y camau nesaf 73

**Pennod 7**
Crynodeb o gyfeiriad y Strategaeth Fwyd 75

**Pennod 8**
Rhestr Eirfa a Diffiniadau 76

**Atodiad**
1. Y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod 79
2. Tîm BRASS Prifysgol Caerdydd 80

## PENNOD 1
## Cyflwyniad

1. Mae'r strategaeth fwyd hon yn canolbwyntio ar Fwyd o Gymru a Bwyd i Gymru, ac yn ceisio nodi ac ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â bwyd sy'n wynebu pob un ohonom, gan gynnwys canfod y ffordd orau o gydbwyso'r angen i gynhyrchu mwy o fwyd gyda'r angen i warchod ein hamgylchedd yn y dyfodol agos a'r hirdymor. Mae'n rhoi cyfeiriad am y deng mlynedd nesaf i bawb sy'n ymwneud â chyflawni potensial y sector bwyd fel ased economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol. Wrth gwrs, rhaid i Strategaeth ddeng mlynedd hyd yn oed ystyried y sialensiau a'r goblygiadau byd-eang sy'n ein hwynebu dros y tymor hwy. Felly mae ffactorau fel newid hinsawdd a chyflenwadau ynni'n cael eu hystyried.

2. Diben y Strategaeth hon yw darparu'r cyfeiriad a'r modd i lunwyr polisi, busnesau a rhanddeiliaid eraill allu manteisio ar y cyfleoedd newydd sydd ar gael a pharatoi ar gyfer wynebu'r heriau cymhleth sydd i ddod.

3. Mae hon yn Strategaeth gyfeiriol drosfwaol sydd wedi'i datblygu law yn llaw â'r diwydiant a'r cyhoedd. Bydd yn cyd-fynd â chyfeiriad polisi *Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned, Ein Dyfodol Iach a Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad*; a bydd unrhyw gamau gweithredu a fydd yn codi yn cael eu cytuno a'u cynllunio mewn partneriaeth â'r diwydiant a Llywodraeth. Mae yna gynlluniau'n bodoli eisoes sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd gan y diwydiant mewn partneriaeth â Llywodraeth – yn y sectorau defnyddio cynnyrch lleol, Twristiaeth Fwyd, Pysgodfeydd, Cig Coch, Llaeth, Garddwriaeth ac Organig. Bydd y Strategaeth hon yn cynnig cyfeiriad inni wrth inni adolygu'n cynlluniau gweithredu, a chaiff cynllun ei ddatblygu i'w hategu er mwyn rhoi'r Strategaeth ar waith a fydd yn nodi'r prif gerrig milltir ar gyfer monitro a gwerthuso ei llwyddiant.

### Ysgogi'r Drafodaeth

4. Wrth ymgynghori ar y Strategaeth hon, gofynnwyd am farn pobl ar y cyfeiriad a awgrymwyd. Y diwydiant bellach, mewn partneriaeth â Llywodraeth, fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau arfaethedig i'r dyfodol. A ninnau bellach wedi cytuno ar y prif flaenoriaethau, gallwn feithrin y bartneriaeth sydd wedi cael ei chreu dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym eisoes wedi dechrau ail-ddatblygu a mynd i'r afael â'n diwylliant bwyd, ond er mwyn parhau â'r gwaith hwn, a chydnabod y newid mewn cyd-destunau, mae angen newid sylweddol yn y ffordd yr ymdrinnir â'r polisi bellach. Bydd thema'r Strategaeth, sef Meithrin Cysylltiadau a Galluoedd, yn gwireddu'r newid hwn.


Mae'r Strategaeth Fwyd hon yn cyflwyno:

- gweledigaeth ar gyfer dyfodol y sector bwyd;
- y newidiadau yng nghyd-destun bwyd, yn fyd-eang ac yng Nghymru;
- set o pump sbardun strategol a'u hegwyddorion;
- cyfres o ymyriadau polisi a chamau gweithredu cysylltiedig i hyrwyddo bwyd, yn ddomestig a thu hwnt, sy'n gysylltiedig â'r thema ganolog o feithrin cysylltiadau a galluoedd; a
- chynigion ar gyfer system weithredu, monitro ac ail-arfarnu gadarn er mwyn sicrhau ei bod hi'n berthnasol i'r heriau parhaus sy'n wynebu'r sector.





**Strwythur y Strategaeth Fwyd: Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 - 2020**




**Ffigur 1:** Strwythur y Strategaeth Fwyd

5. Datblygwyd y Strategaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP) sy'n gweithio gyda'r diwydiant.

6. Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth ddrafft, cynhaliwyd ymgynghoriad trylwyr ac eang o fewn y Llywodraeth, y diwydiant ac yn y gymdeithas ehangach, gan gynnwys digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid a chyfarfodydd cyhoeddus. Bydd y Strategaeth hon yn rhoi cyfeiriad i benderfyniadau a gweithredu'r dyfodol.

7. Bydd gan y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP) gyfrifoldeb i gefnogi datblygiad cynllun i roi'r Strategaeth Fwyd ar waith. Byddai hynny'n cynnwys nodi cerrig milltir i fonitro'i chynnydd, a chydweithio â Gweinidogion a chyfranddalwyr perthnasol.

8. Ceir mwy o fanylion am rôl ac aelodaeth FDAP yn Atodiad 1.

‘Bellach, wrth feddwl am Gymru, meddylir am fwyd naturiol, iachus o ansawdd uchel’



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010│2020

## PENNOD 2
## Gweledigaeth ar gyfer Bwyd yng Nghymru 2020

**Gweledigaeth o sut y gallai’r diwydiant edrych yn 2020 ar ôl mabwysiadu’r cyfeiriad a fydd yn cael ei bennu gan y Strategaeth hon.**

*Yn 2020 gallwn ni ddweud yn glir ein bod wedi gweld gwelliant aruthrol yn yr enw da a’r gwerth sy’n gysylltiedig â bwyd Cymru yn y deng mlynedd diwethaf, yn dilyn newid mawr yn ein hagwedd at bolisi bwyd. Bellach, wrth feddwl am Gymru, meddylir am fwyd naturiol, iachus o ansawdd uchel. Mae defnyddwyr yn chwilio mwy a mwy am y cynhyrchion hyn mewn amrywiaeth o lefydd.Gwelwn fod y gwelliannau a gynlluniwyd i sicrhau yn ansawdd ac amrywiaeth bwydydd swmpus bellach wedi cael eu cyflawni – gan wneud bwyd iachus, da’n fwy hygyrch a deniadol i bawb. Mae gan fwyd a gynhyrchir yma gyfran fwy o’r farchnad ryngwladol hefyd.*

*Mae’r gwelliannau hyn wedi cael eu cyflawni trwy ymdrechion ffermwyr, pysgotwyr, proseswyr bwyd, manwerthwyr, arlwywyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, addysgwyr a Llywodraeth i weithio gyda’i gilydd i gyflawni’r un nod gyda dealltwriaeth glir o’r hyn sydd ei angen. Mae Llywodraeth wedi hwyluso’r gwaith o rannu syniadau ac arferion gorau er mwyn cynyddu’r defnydd a wneir o opsiynau bwyd iachus. Sbardunodd yr ymgynghoriad yn 2010 drafodaeth ehangach a fu’n gymorth i wneud polisi’n fwy integredig ar draws meysydd polisi y tu allan i gynhyrchu a phrosesu bwyd. Allwedd i’r llwyddiant hwnnw oedd y penderfyniad i greu a chytuno ar Strategaeth drosfwaol i’r diwydiant o safbwynt ‘system’ fwyd ehangach. Trwy’r ymdrech ar y cyd honno, mae bwyd wedi dod yn rhan annatod o bob gweithred a meddwl wrth ymdrin â meysydd mor amrywiol â diwylliant, iechyd, anghydraddoldeb, tirweddau naturiol ac adeilog, gwastraff, addysg, trafnidiaeth, ynni a’r economi. Mae bwyd yn sylfaenol hefyd i’n hymdrechion tymor hir i ddatblygu gwytnwch a diogelwch yr economi.*

*Mae defnyddwyr yn dod i werthfawrogi ein cynhyrchion a’n cynhyrchwyr fwy a mwy ac maent yn canolbwyntio llawer mwy ar eu hanghenion maeth fel rhan o ddeiet cytbwys. Mae gennym sector bwyd cryf sy’n masnachu er mwyn cael manteision economaidd yn y farchnad fyd-eang ac mae’n parhau i gyfrannu fwyfwy at economi Cymru trwy hybu refeniw allforio a chyflogaeth.*

*Mae’r sector twristiaeth yn gryfach o ganlyniad i atyniad profiad bwyd mor bleserus. Mae cymunedau’n elwa drwy gyfrannu at y gwaith o ddiwallu’r angen am fwy o fwyd i ddefnyddwyr. Mae cynhyrchwyr bwyd yn cynhyrchu llawer mwy ac maent yn mynd ati’n ddiwyd i warchod yr amgylchedd. Mae yna gydnabyddiaeth glir o’r manteision iechyd sydd ynghlwm wrth fod yn fwy ymwybodol o fwyd o ran defnyddwyr, a chaiff y gydnabyddiaeth hon ei hyrwyddo ym myd addysg ac mewn mentrau caffael bwyd. Mae bwyd yn rhan ganolog o addysg ac mae yna dystiolaeth gref i ddangos fod llawer mwy o bobl o bob oed yn ennill cymwysterau. Mae pawb sy’n gweithio yn y gadwyn gyflenwi’n elwa bellach ar y sgiliau gwell sydd ar gael inni.*

*Mae'r Strategaeth Fwyd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn hyblyg o ran newid, gan fanteisio ar y dystiolaeth sydd ar gael i werthuso ac adolygu yn ogystal â'r bartneriaeth waith ddiffuant ac agos sydd wedi dod yn rhan ganolog o'r datblygiadau wrth i'r amgylchiadau a'r sbardunau polisi newid.*

*Mae'r disgwyliadau sydd gennym o'r system fwyd wedi newid yn aruthrol. Mae defnyddwyr yn gofyn fwy a mwy am gynhyrchion bwyd sy'n fwy ystyriol o gymdeithas a'r amgylchedd, yn ogystal â gofyn am fwy o werth ac amrywiaeth yn y bwydydd y maent yn eu bwyta. Mae ein bwytai'n cynnig cynhyrchion lleol o ansawdd uchel iawn ar eu bwydlenni sy'n brolio tarddle'r bwydydd i bawb gael gweld. Yn ddomestig, ystyrir bwyd fel darparwr twf economaidd pwysig, ond mae hefyd yn cael ei ystyried yn ganolog i'n diwylliant a'n hiechyd. Ystyrir bwyd fel cynhwysyn hanfodol mewn cymdeithas gynaliadwy, iach, broffidiol a theg.*





## PENNOD 3
## Pam mae angen Strategaeth Fwyd arnom?

Er mwyn rhoi:

- gweledigaeth strategol sy'n dangos nodweddion unigryw Cymru o ran cynhyrchu, bwyta, llywodraethu a materion cymdeithasol a diwylliannol;
- crynodeb o'r pwysau a fydd yn effeithio ar fwyd dros y degawd nesaf a'r ystyriaeth ohono;
- fframwaith i helpu llunwyr polisi, busnesau a rhanddeiliaid eraill i wynebu a datrys cymhlethdodau;
- anogaeth i'r diwydiant bwyd i fanteisio ar gyfleoedd newydd; ac
- cyfeiriad polisi cydlynol i'r Llywodraeth a'r diwydiant i wynebu'r heriau hyn gyda'n gilydd.

1. Yn y gorffennol, mae'r disgwyliadau sydd gennym o'r system fwyd wedi cael eu hystyried yn bennaf trwy ganolbwyntio ar ddarparu sypiau mawr o fwyd o ansawdd am bris rhesymol i gymaint o bobl â phosibl. Ond, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu galwadau ehangach a mwy cymhleth ar y system fwyd. Mae effaith ein system fwyd ar yr amgylchedd, iechyd ac ar gymdeithas wedi dod yn fwy a mwy amlwg ac mae'r pryderon am ddiogelwch ein cyflenwad bwyd wedi cynyddu[3].

2. Cytuna arbenigwyr ein bod wedi cyrraedd cyfnod o gymhlethdod yn y system fwyd sydd wedi dod yn sgil y pwysau byd-eang o ran adnoddau ar dir, dŵr, ynni, poblogaeth a bioamrywiaeth[4]. Rydym hefyd yn wynebu'r heriau i geisio addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Rhaid i'n sector bwyd ystyried ac ymateb i'r datblygiadau hyn er mwyn manteisio'n llawn ar ei fywiogrwydd ei hun a pharhau i allu cyflenwi'r defnyddwyr gyda'r bwydydd sydd eu hangen arnynt.

3. Mae defnyddwyr yn gofyn fwy a mwy am gynhyrchion bwyd sy'n ystyriol o gymdeithas a'r amgylchedd, yn ogystal â gofyn am fwy o werth ac amrywiaeth yn y bwydydd y maent yn eu bwyta. Bydd pwysigrwydd effeithiau iechyd bwyd yn parhau i gynyddu a bydd yn darparu cyfleoedd ym mhob rhan o'r sector bwyd. Ar yr un pryd, bydd mwynhad cymdeithasol a phleser cynhyrchion bwyd yn parhau'n bwysig i'r ffyrdd rydym ni'n bwyta bwyd.

[3] Gweler er enghraifft yn lefel y DU: Swyddfa'r Cabinet (2008): *Food Matters*, a Hawlfraint y Goron, Llundain (2010): *Food 2030*

[4] Ambler-Edwards; Bailey; Kiff; Lang; Lee; Marsden; Simons; Tibbs; (2009). *Food Futures: Rethinking UK Strategy*; Chatham House, Llundain; DEFRA (2009). *Food 2030*; Hawlfraint y Goron, Llundain (2010); DEFRA (2010): *UK Food Security Assessment: Detailed Analysis, Awst 2009; diweddarwyd yn Ionawr 2010*; adroddiad IAASTD, World Bank (2009): *Agriculture at a Crossroads*; Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009): *y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad*

4. Bwriad y Strategaeth hon yw hyrwyddo nodweddion unigryw Cymru o ran ei sylfaen cynhyrchu bwyd, asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol, galwadau defnyddwyr a blaenoriaethau cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae'r Strategaeth yn darparu canolbwynt i'r pwerau sydd eu hangen ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth y gellir eu defnyddio i hyrwyddo gweledigaeth a nodau'r Strategaeth mewn modd cydgysylltiedig ac effeithiol.

5. Mae'r Strategaeth hon yn seiliedig ar y gred fod angen ymdrin â'r system fwyd mewn modd cyfannol sy'n ymestyn ar draws pob agwedd ar gynhyrchu a bwyta bwyd. Cyflwynir hi fel dull strategol sy'n gymwys ar draws Llywodraeth, yn hytrach na Strategaeth a gyfyngir i bortffolios a chyfrifoldebau adrannol, ac mae'n seiliedig ar feithrin perthynas gynhwysol a chydweithredol gyda phob rhan o'r sector bwyd[5]. Mae'r Strategaeth hon yn derbyn bod yn rhaid i'n cyfeiriad i'r sector bwyd a'n hagwedd ato ymgorffori sialensiau a chyfleoedd ein system fwyd ehangach.

## a) Y cyd-destun byd-eang

6. Tybir y bydd y cynnydd ym mhoblogaeth y byd dros yr 20-30 blynedd nesaf yn arwain at fwy o bwysau ar y cyflenwad bwyd[6] a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar brisiau nwyddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan. Rhagwelir y bydd y pwysau'n cynyddu ar adnoddau sydd eisoes yn brin, fel olew, dŵr, a adnoddau biolegol fel pysgod a thir amaethyddol ffrwythlon, ac mae diogelu bwyd wedi dod yn bryder canolog i lywodraethau ledled y byd[7]. Bydd hyn yn cynyddu'r angen i ni reoli'r ffordd y defnyddir yr adnoddau hyn yn ofalus.

7. Mae'r galwadau a'r pwysau hyn ar adnoddau yn cyfuno â heriau newid yn yr hinsawdd[8] a'r ansicrwydd o ran yr ymateb byd-eang iddynt. O ganlyniad i hyn, rydym yn debygol o fod ar drothwy cyfnod o newid sylweddol, gyda'r posibilrwydd o weld cyflenwad mawr cyfnewidiol a phwysau i gynyddu prisiau bwyd. Bydd y ddau fater o gynaliadwyedd neu ddiogelwch bwyd a'r angen i ddatblygu systemau cynhyrchu a defnyddio bwyd cynaliadwy er lles ein pobl yn faterion allweddol dros y degawd i ddod. Mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod bod yna faterion a allai achosi gwrthdaro, a'n bod yn chwilio am y cydbwysedd priodol. Fe allai rai camau a gymerir, hyd yn oed gyda'r bwriadau gorau, arwain at ganlyniadau na fwriadwyd, a rhaid i ni ragweld y rhain lle bynnag y bo modd. Enghraifft o hyn fyddai'r sbardun i amrywio cynhyrchiant yn arwain at fforest law'n cael ei chlirio er mwyn bodloni'r galw am borthiant anifeiliaid. Mae'n bwysig ystyried yr ôl-troed carbon yn y cyd-destun byd-eang yn ogystal â'r cyd-destun rhanbarthol a lleol.

[5] Nodwch fod yna wahaniaeth rhwng y system fwyd a'r sector bwyd. Mae'r sector bwyd yn cyfeirio at y sector masnachol sy'n cynnwys gweithgareddau economaidd cynhyrchu, gweithgynhyrchu, dosbarthu, paratoi bwyd, manwerthu a gwasanaethau bwyd. Mae'r system fwyd yn cynnwys y sector bwyd ac effaith gwahanol rannau o'r sector ar yr amgylchedd naturiol a'r lefelau iechyd a lles ar gyfer ein pobl i gyd.

[6] Banc y Byd (2009), *Implementing Agriculture for Development: World Bank Group Agriculture Action Plan 2010-2012*; World Bank, Washington DC; a'r FAO (y Sefydliad Bwyd ac Amaeth) (2009) *How to feed the World in 2050*. Mae'r FAO wedi darogan y bydd angen i'r bwyd a fwyteir gan bobl (heb gynnwys bwyd a ddefnyddir ar gyfer biodanwyddau) gynyddu 70% o lefel 2005/2007 er mwyn bodloni'r cynnydd cyfatebol a ddisgwylir mewn galw. Dylid bod yn ochelgar gyda'r amcanestyniad ar alw, gan ei fod yn cynnwys tybiaethau am ddeietau, newid mewn deietau, a newidiadau bwyta y pen mewn cymdeithasau a fydd yn dod yn fwy ffyniannus (Gweler hefyd DEFRA: *UK Food Security Assessment: Detailed Analysis, Awst 2009; diweddarwyd Ionawr 2010)*

[7] Gweler er enghraifft astudiaethau llywodraeth y DU ar ddiogelwch bwyd yn DEFRA, (Ionawr 2010): *'UK Food Security Assessment: Detailed Analysis'*; dadansoddiad o ystadegau masnachu'r DU

[8] Gweler Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010): *Adroddiad ar Ddefnydd Tir a Newid Hinsawdd*; sydd ar gael yn http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/100310landuseclimatechangegroupreporten.pdf



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

### Cyflenwad Bwyd y Byd: Galwadau Cystadleuol a Newidiol

Mae dadansoddiad a wnaed yn ddiweddar gan Fanc y Byd yn awgrymu y dylai'r galw am fwyd yn fyd-eang gynyddu ar gyfradd is dros y 25 mlynedd nesaf o gymharu â'r ddau ddegawd diwethaf. Disgwylir y bydd cynnydd mewn tir amaethyddol, a gwelliannau mewn technegau cynhyrchu ac amaethu yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant. Bydd gwelliant parhaus, fodd bynnag, yn dibynnu ar fuddsoddi mewn technoleg ac mewn seilwaith a fydd yn cefnogi'r defnydd o dechnoleg fferm a storio a dosbarthu nwyddau. Mae Banc y Byd yn tynnu sylw hefyd at yr heriau a wynebir yn sgil y newid yn yr hinsawdd a'r galwadau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd yn sgil newid i ddefnyddio biodanwydd.

### Effaith biodanwyddau ar y cyflenwad bwyd posibl

O ganlyniad i'r pwysau ar gyflenwadau ynni byd-eang, mae sawl llywodraeth wedi cefnogi ehangu'r gwaith o gynhyrchu biodanwyddau. Mae hyn yn golygu bod y pwyslais wedi symud o gynhyrchu bwyd i gynhyrchu tanwydd mewn rhai mannau. Yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, disgwylir y bydd 100 miliwn o dunelli o rawn yn cael eu defnyddio i wneud ethanol i geir yn 2010, cynnydd aruthrol o'r flwyddyn 2000 pan oedd cyfanswm yr UD yn llai na 20 miliwn o dunelli. Awgryma'r ffigurau gan Adran Amaeth yr Unol Daleithiau a'r Cenhedloedd Unedig y gallai cymaint â hyn o rawn fwydo oddeutu 350 miliwn o bobl (Earth Policy Institute, 2010).

### Newidiadau ym mhatrymau bwyta'r byd

Mae faint o gig a gaiff ei fwyta'n fyd-eang wedi cynyddu o 44 miliwn o dunelli ym 1950 i 260 miliwn o dunelli yn 2007. Mae hyn yn cyfateb i 17kg y pen y flwyddyn ar gyfartaledd ym 1950 a 39kg y pen y flwyddyn yn 2007.

Mae patrymau defnydd bwyd wedi dod yn debycach ar draws y byd, gan symud tuag at fwydydd drutach sydd o safon uwch, fel cynhyrchion cig a llaeth. Mewn gwledydd datblygol, mae'r cig a fwyteir wedi cynyddu o 10kg y pen y flwyddyn ym 1964-66 i 26kg y pen y flwyddyn ym 1997-99, a disgwylir y bydd yn cyrraedd 37kg y pen y flwyddyn erbyn 2030. Yn yr un modd, mae'r cynhyrchion llaeth a fwyteir wedi cynyddu o 28kg y pen y flwyddyn ym 1964-66, i 45kg y pen y flwyddyn yn 2009, a disgwylir y bydd yn cyrraedd 66kg y pen y flwyddyn erbyn 2030 (FAO, 2009).

(Ffynonellau: Global Economic Prospects 2009, Banc y Byd; Sefydliad Bwyd ac Amaeth; Adran Amaeth yr Unol Daleithiau; y Cenhedloedd Unedig; a'r Earth Policy Institute, 2010)

## b) Cymru yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig

8. Er bod newidiadau yn y system fwyd fyd-eang yn bwysig, rhaid cydnabod mai dylanwadau lleol, Prydeinig ac Ewropeaidd sy'n cael yr effaith fwyaf uniongyrchol. Gellir gweld hyn yn glir yn y fasnach rhwng cenhedloedd a/neu ranbarthau o'r DU lle mae da byw, pysgod, bwydydd wedi'u prosesu a heb eu prosesu'n croesi eu ffiniau'n aml[9]. Caiff polisïau bwyd ac amaethyddiaeth eu dylanwadu'n gryf gan yr Undeb Ewropeaidd.

9. Yn unol â'r dyheadau a nodwyd uchod, mae'r Strategaeth Fwyd yn ystyried y system fwyd yn eang. Felly, mae cydrannau perthnasol y system yn cynnwys cymorth gwladol i amaethyddiaeth (gan gynnwys PAC) a physgodfeydd (PCP), datblygu busnes a sgiliau, y fasnach fewnforio ac allforio, prosesu a chynhyrchu, dosbarthu, paratoi bwyd a gwasanaethau bwyd. Mae effeithiau'r sector bwyd a'r polisi bwyd ar yr amgylchedd naturiol, ar agweddau pobl tuag at fwyd, ar iechyd defnyddwyr, ac ar rôl bwyd mewn datblygiad cymunedol hefyd yn cael eu hystyried fel nodweddion pwysig o'r system fwyd.

[9] Gweler ymchwil a wnaed gan DTZ Consulting ar Gadwynau Cyflenwi Gwerth Ychwanegol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

10. Mae'r system fwyd a ragwelwyd yn y Strategaeth yn un gymhleth (fel yr amlygir yn Ffigur 2)[10]. Mae wedi'i hintegreiddio i raddau helaeth yn system fwyd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yn fasnachol, yn gymdeithasol ac mewn polisi. Mae'n anodd dadansoddi bwyd Cymru ar ei ben ei hun oherwydd y ffordd y mae gwahanol gydrannau o'r system yn y DU ac Ewrop yn cyd-blethu. Er gwaetha'r cyfyngiadau hyn a gydnabuwyd, mae'r canlynol yn amlinellu galluoedd ac allbynnau cynhyrchu'r system fwyd, ei chyfraniad at gyflogaeth a'i gwerth economaidd.





Figure 2: Y System Bwyd: Y Cydrannau, Y Dylanwadau a'r Effeithiau

### Cyflenwad Bwyd Cymru a'r DU

Mae system gyflenwi bwyd y DU yn ddibynnol ar ystod amrywiol o ffynonellau. Gellid ystyried cynnydd mewn ffynonellau cyflenwi bwyd fel cryfder: gan roi i'r system fwyd wytnwch i wrthsefyll methiannau neu ymyriadau yn y cyflenwad a achosir gan unrhyw un ffynhonnell. Fodd bynnag, mae'r system yn agored i ystod eang o fygythiadau posibl, fel ymyriadau mewn cyflenwadau ynni, tywydd eithafol, pandemigau byd-eang a tharfu economaidd.

Yn 2007, roedd oddeutu 50% o fwyd y DU (yn ôl gwerth bwyd heb ei brosesu wrth gât y fferm) yn dod o Brydain, gyda'r Iseldiroedd, Sbaen, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, Denmarc, Gwlad Belg a'r Eidal yn cyflenwi 25% pellach. Roedd y gweddill yn cael ei gyflenwi o wledydd ar draws y byd, gan gynnwys rhai eraill yn Ewrop. Cludwyd y rhan fwyaf o'r bwydydd hyn ar dir.

Mae'r cyflenwad o fewnforion i'r DU yn amrywio yn ôl sector hefyd. Yn 2007, er enghraifft, roedd y DU yn cynhyrchu 80% o'i chig a'i chynhyrchion cig ei hunan, 84% o'i chynhyrchion llaeth ac wyau adar *, 50% o'i grawn a'i pharatoadau grawn, ond dim ond 19% o'i ffrwythau a'i llysiau ffres.

(Ffynhonnell: 'UK Food Security Assessment: Detailed Analysis'; DEFRA, Ionawr 2010: dadansoddiad o ystadegau masnachu'r DU; *Nodwch fod cynhyrchion llaeth ac wyau adar yn cael eu cyfri fel un dosbarth o fasnach mewn ystadegau swyddogol.)

[10] Mae Ffigur 2 yn dangos prif gydrannau'r system fwyd, y dylanwadau arni a'i heffeithiau. Nid yw'n ceisio nodi'r pwysigrwydd cymharol na'r berthynas uniongyrchol rhwng y gwahanol ffactorau a gynhwyswyd, ond yn hytrach, mae'n ddarlun o gwmpas a chymhlethdod y system fwyd fel y rhagwelir hi yn y Strategaeth hon.





## (c) Allbwn, cynhyrchiant cynradd a chapasiti

11. Mae gwerth cynhyrchion amaethyddol yn amrywio yn ôl y newid yn y galw byd-eang a symudiadau ariannol. Fodd bynnag, dangosodd cipolwg yn 2009 fod allbwn amaethyddol gros Cymru werth £1,043 miliwn (heb gynnwys anifeiliaid stôr).

12. Cig eidion, cig oen, llaeth a chynhyrchion llaeth eraill yw'r prif gynhyrchion amaethyddol o hyd, ac maent yn gyfystyr â thua thri chwarter o'r holl gynnyrch amaethyddol cynradd dros y blynyddoedd diwethaf. Dros y degawd yn arwain at 2007, mae'r daliadau amaethyddol sy'n amaethu cig eidion, cig oen a chynnyrch llaeth wedi lleihau. Yn 2008, roedd nifer y cynhyrchwyr llaeth wedi haneru ers 1998, er bod y lleihad mewn cynnyrch llaeth yn ganran lawer llai na'r cyfanswm am yr un cyfnod. Mae nifer y daliadau sy'n amaethu moch, dofednod a daliadau garddwriaeth wedi amrywio yn ystod y cyfnod hwn, ond mae'r cyfanswm yn parhau'n fach (e.e. 34 moch, 328 dofednod, a 133 garddwriaeth yn 2008)[11]. Mae nwyddau eraill wedi bod yn bresennol i raddau amrywiol, ond maent naill ai wedi parhau'n gyfranwyr bach i gyfanswm yr allbwn neu wedi gostwng yn sylweddol yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif[12]. Roedd cnydau âr[13] yn 2007, er enghraifft, deirgwaith yn llai nag yr oedd yn niwedd y 1950au. Er bod arwynebedd o dan arddwriaeth yn fach, mae potensial iddo fod o werth mawr.

**Allbwn amaethyddol Cymru, 2009**

| Categori | £ miliwn | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Llaeth a Chynhyrchion Llaeth | 330 | 29% |
| Gwartheg wedi'u gorffen | 207 | 18% |
| Defaid ac Ŵyn | 204 | 18% |
| Dofednod ac Wyau | 78 | 7% |
| Moch wedi'u gorffen | 4 | 0% |
| Cyfanswm ydau | 15 | 1% |
| Garddwriaeth a thatws | 33 | 3% |
| Ffurfio cyfalaf | 51 | 5% |
| Gweithgareddau amaethyddol eraill * | 121 | 11% |
| Store Cattle & Sheep | 90 | 8% |
| Cyfanswm | 1,133 | 100% |

(Ffynhonnell: Allbwn ac Incwm Amaethyddol 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru
*Mae gweithgareddau amaethyddol eraill yn golygu 'da byw eraill', 'cnydau eraill', gwlân wedi'i gneifio, gwaith arall gan y ffermwr, gwerthiant coetir a 'gweithgareddau eilaidd anwahanadwy'.

[11] Gweler *Ystadegau Amaethyddol Cymru sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*
[12] Gweler *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, 2007-2013: Dadansoddiad o'r Sefyllfa*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008
[13] Gweler yr *Adroddiad ar Ddefnydd Tir a Newid Hinsawdd; Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

## Cynhyrchiant Cynradd a Chapasiti Pysgodfeydd

13. Mae elfen bwyd diwydiant pysgota wedi'i rannu rhwng dalfeydd môr masnachol; rhynglanw; dyframaethu; a physgodfeydd mewndirol. Mae'n amrywio o ran maint a phwysigrwydd: er mai Cymru sy'n arwain y DU o ran cynhyrchu cregyn gleision gwely'r môr. Marchnad fach sydd ar gyfer cynhyrchu wystrys a physgod cregyn eraill. Credir yn gyffredinol bod pysgota'n cyfrannu sylweddol tuag at y sector twristiaeth; fodd bynnag, nid oes data dibynadwy digonol ar gael i gadarnhau ei gyfraniad ar hyn o bryd.

14. Mae canran uchel yn cael ei lanio yn Aberdaugleddau. Yn draddodiadol, mae mwyafrif cychod Cymru yn canolbwyntio ar bysgod cregyn o fewn 6 milltir forol. Y rhywogaethau pwysicaf, o bell ffordd, yw crancod coch, cregyn bylchog, cregyn moch, cimychiaid, crancod heglog a chorgimychiaid. Mae cychod sydd wedi'u cofrestru y tu allan i Gymru ond sy'n glanio eu daliadau ym mhorthladdoedd Cymru yn targedu lledod chwithig, maelgwn, cimychiaid Norwy a morgathod. Mae dros 90% o'r hyn a ddelir yn cael ei allforio.

Cyfanswm a gwerth y pysgod a'r pysgod cregyn a laniwyd yng Nghymru 2007-2009

| | 2007 | 2008 | 2009 | Total |
|---|---|---|---|---|
| Pwysau byw a laniwyd (tunelli) | 6,900 | 11,800 | 9,200 | 27,800 |
| Gwerth y pysgod a laniwyd (£) | 10,800,000 | 10,600,000 | 9,100,000 | 30,500,000 |

Ffynhonnell: Sefydliad Rheoli Morol
Mae Cymru'n golygu cychod sydd wedi'u cofrestru ym mhorthladdoedd Cymru

## Cynhyrchiant Cynradd a Chapasiti o ran Cig Coch

15. Mae faint o gig a gynhyrchir wedi amrywio, gan ddangos, o ran cig eidion, effeithiau'r epidemig Traed a Genau. Mae cynhyrchiant da byw a chynhyrchion llaeth yn parhau i gynnal eu cyfrannau o fewn cynhyrchiant cynradd Cymru neu eu cynyddu.

Cynhyrchiant Cig Da Byw (miloedd tunnell)

| Categori | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cig eidion a llo | 11.3 | 21.2 | 37.9 | 43.5 | 44.7 | 47.9 | 45.0 | 44.1 | 42.2 | 42.2 |
| Cig dafad ac oen | 73.1 | 53.7 | 71.7 | 75.6 | 80.6 | 85.6 | 82.6 | 80.0 | 81.2 | 66.9 |
| Cig moch | 2.1 | 1.8 | 1.3 | 1.0 | 1.1 | 1.3 | 1.5 | 2.0 | 1.8 | 1.7 |

(Ffynhonnell: DEFRA: Nodwch mai amcangyfrifon yw'r rhain o'r swm o gig a gynhyrchwyd o anifeiliaid a laddwyd yng Nghymru. Hwyrach fod cig anifeiliaid a fagwyd mewn man arall wedi cael ei gynnwys ac na chynhwysir cig anifeiliaid a fagwyd yng Nghymru ond a laddwyd mewn man arall)





## Cynhyrchiant Cynradd a Chapasiti o ran Cynhyrchion Godro

16. Mae'r gallu i gynhyrchu llaeth wedi gostwng gan fod nifer y cynhyrchwyr llaeth wedi bod yn gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.

17. Cyn 2004-05, roedd cynhyrchiant llaeth y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu'n agos iawn y terfyn cwota (dechreuwyd casglu ffigurau cynhyrchu ar gyfer Cymru yn 2004-05). Er bod cwota Cymru wedi cynyddu ychydig ers hynny, mae cynhyrchiant wedi cwympo i ryw 5% yn is na lefel 2004-05. Yn yr un cyfnod, mae rhyw 17% yn llai o ffermydd yng Nghymru â chwota.

Deiliaid cwota llaeth, cyfanswm y cwota llaeth a chynhyrchiant llaeth 2004-5 i 2008-9
Gwerthoedd cymharol, gyda 2004-05 yn cynrychioli 100

| | Deiliaid cwota | Cyfanswm cwota | Cyfanswm cynhyrchiant |
|---|---|---|---|
| 2004-5 | 100 | 100 | 100 |
| 2005-6 | 95 | 99 | 99 |
| 2006-7 | 91 | 101 | 97 |
| 2007-8 | 86 | 101 | 97 |
| 2008-9 | 83 | 103 | 94 |

Tueddiadau mewn godro, gyda 2004-5 yn cynrychioli 100




Deiliaid cwota
Cyfanswm cwota
Cyfanswm cynhyrchiant

(Ffynhonnell: Asiantaeth Taliadau Gwledig)

## (d) Cyflogaeth a gwerth economaidd ychwanegol mewn amaethyddiaeth a'r sector bwyd

18. Y GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth – *Gross Added Value*) yw'r prif linyn ar gyfer mesur allbwn economaidd gwlad neu ranbarth. Mae'r data diweddara'n awgrymu bod y diwydiant amaethyddol yn cyfrannu llai nag 1% at gyfanswm GVA Cymru yn 2008. Mae'r diwydiant amaethyddol yn cael effaith anuniongyrchol ar GVA Cymru hefyd trwy, er enghraifft, y sectorau cludo, prosesu a manwerthu.

19. Roedd y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yn gyfrifol am 2.4% o gyfanswm y GVA yng Nghymru yn 2008, o'i gymharu â ffigur Prydeinig o 1.8% ym Mhrydain. Yn 2008, roedd oddeutu 23,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, sef 1.9% o'r holl swyddi cyflogedig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau sy'n gweithredu yn y sector prosesu a gweithgynhyrchu bwyd yn Fusnesau Bach neu Ganolig, gyda llai na 10% o'r busnesau'n cael eu hystyried yn gwmnïau mawr (250+ o weithwyr). Er nad oes llawer ohonyn nhw, y cwmnïau mawr hyn sy'n gyfrifol am dros hanner y 23,000 o swyddi yn y sector. Yn ogystal â'r sector gweithgynhyrchu, mae cyfran o GVA a swyddi'r sector gwestai a thai bwyta a manwerthu hefyd yn gysylltiedig â bwyd.

### Cyflogaeth mewn Amaethyddiaeth

Mae cyflogaeth mewn amaethyddiaeth yn dioddef dirywiad tymor hir. Yn ôl amcangyfrifon Arolwg Amaethyddol Cymru, ym 1998 roedd 62,000 o bobl yn gweithio ar ddaliadau yng Nghymru, ond erbyn 2009, roedd y ffigur hwn wedi cwympo i 56,600. Cyfrifiad syml o bennau ffermwyr yw hwn, ac mae'n cynnwys gweithwyr amser llawn, rhan-amser ac achlysurol. Roedd ychydig dros eu tri chwarter yn ffermwyr, eu priod a'u partneriaid busnes eraill (y prif ffermwyr fel y'u gelwir).


Mae'r cydbwysedd rhwng gweithwyr amser llawn a rhan-amser wedi newid yn fawr rhwng 1998 a 2009. Ym 1998, roedd 42 % o weithwyr fferm yn brif ffermwyr amser llawn, a 32% yn brif ffermwyr rhan-amser. Erbyn 2009, roedd 34% yn amser llawn a 43% yn rhan-amser.

(Ffynhonnell: *Ystadegau Amaethyddol Cymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)





Amcangyfrif o lafur fferm ar sail Arolwg Amaethyddol Cymru 1998 - 2009
Nifer y gweithwyr fferm yn ôl eu math ('000)




Ffynhonnell: Amcangyfrifon ar sail Arolygon Amaethyddol Cymru bob Mehefin 1998-2009

Gwerth Economaidd Ychwanegol y Sector Bwyd ac Amaethyddiaeth
Cyfraniad Sector Bwyd Cymru at Economi Cymru

| | |
|---|---|
| Cyfanswm GVA Bwyd a Diod Cymru* (BD) (2005) | £3.5 biliwn |
| Cyfraniad sector Cymru at GVA BD y DU | ~4% |
| Cyfraniad sector BD Cymru at gyfanswm GVA Cymru | ~12% |
| GVA amaeth Cymru (2009, prisiau'r farchnad) | £204.9 miliwn |
| Cyfanswm yr Incwm o Ffermio (CIOFf)** | £170.4 miliwn |

*Heb gynnwys ffermio a physgota ond gan gynnwys y diwydiannau bwyd a diod, sy'n cynnwys; gweithgynhyrchu bwyd a diod, cyfanwerthu, manwerthu a gwasanaethau bwyd (bwytai, ffreuturau, arlwyo, bariau).
**GVA: Gwerth Ychwanegol Crynswth; Mae'r CIOFf yn cynnwys incwm o weithgareddau arallgyfeiriol a gwerth ychwanegol na ellir eu gwahanu o'r busnes amaethyddol.

(Ffynhonnell: *Annual Business Inquiry, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2006; ac Ystadegau Amaethyddol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)*

20. O ran y sector laeth, mae pum prif gwmni yn dominyddu. O'r 1.5 biliwn litr o laeth a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2008 (sef 11% o gyfanswm cynhyrchiant y Deyrnas Unedig) - cafodd y mwyafrif ei brosesu yng Nghymru. Yn achos busnesau bach a microfusnesau, defnyddir ffermydd neu gyfleusterau bach i brosesu, ond yn aml, mae diffyg cyfleusterau'n golygu gall y prosesu cael ei wneud mewn lleoliadau canolog mewn mannau eraill yn y DU.

21. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y mae mentrau, swyddi a'r Gwerth Ychwanegol Crynswth yn cael eu rhannu ar draws sectorau diwydiannol Cymru a Phrydain Fawr yn 2008. Mae'r tabl yn dangos y sectorau hynny sy'n amlwg o fewn y sector bwyd (amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu bwyd) neu sydd ag elfen fwyd ynddynt (gwestai a thai bwyta, manwerthu a chyfanwerthu, a chludiant a chyfathrebu). Mae sectorau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd yn cael eu grwpio gyda'i gilydd. Mae ffigurau'r swyddi yn cynnwys hunangyflogaeth a masnachwyr unigol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig i'r sector amaethyddol lle ceir llawer o ffermwyr sydd heb weithwyr cyflogedig rheolaidd, dim ond y ffermwr hunangyflogedig ei hun.

22. Mae cyfran y mentrau, y swyddi a'r Gwerth Ychwanegol Crynswth sydd yn y sectorau bwyd amrywiol yn eithaf tebyg rhwng Cymru a Phrydain Fawr. Y brif wahaniaeth yw bod cyfran llawer iawn uwch o fentrau Cymru yn y sector amaethyddol na Phrydain Fawr.

**Ystadegau economaidd cryno fesul diwydiant, 2008 (SIC 2003)**

| | | | | Cyfran o'r cyfanswm cenedlaethol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mentrau ('000) | Swyddi cyflogedig ('000) | GVA (Biliynau £) | Mentrau | Swyddi cyflogedig | GVA |
| **Cymru** | | | | | | |
| Amaethyddiaeth | 15.8 | 18.3 | 0.2 | 16.5% | 1.5% | 0.5% |
| Gweithgynhyrchu bwyd | 0.4 | 23.0 | 1.0 | 0.5% | 1.9% | 2.4% |
| Gwestai a thai bwyta | 8.3 | 83.7 | 1.4 | 8.7% | 7.1% | 3.2% |
| Manwerthu a chyfanwerthu | 17.2 | 188.8 | 4.9 | 18.0% | 16.0% | 11.2% |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 3.9 | 50.6 | 2.4 | 4.1% | 4.3% | 5.5% |
| Sectorau eraill | 49.9 | 818.6 | 34.2 | 52.2% | 69.2% | 77.4% |
| Cyfanswm | 95.4 | 1,183.0 | 44.1 | 100.0% | 100.0% | 100.0% |
| **Prydain Fawr** | | | | | | |
| Amaethyddiaeth | 138.9 | 270.4 | 8.7 | 6.6% | 1.0% | 0.7% |
| Gweithgynhyrchu bwyd | 6.8 | 379.8 | 21.5 | 0.3% | 1.4% | 1.8% |
| Gwestai a thai bwyta | 132.9 | 1,802.4 | 34.6 | 6.4% | 6.8% | 2.9% |
| Manwerthu a chyfanwerthu | 365.3 | 4,427.1 | 137.4 | 17.5% | 16.6% | 11.6% |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 81.5 | 1,547.9 | 85.5 | 3.9% | 5.8% | 7.2% |
| Sectorau eraill | 1,364.6 | 18,249.6 | 896.1 | 65.3% | 68.4% | 75.7% |
| Cyfanswm | 2,090.0 | 26,677.2 | 1,183.8 | 100.0% | 100.0% | 100.0% |

Ffynhonnell: Inter-Departmental Business Register; Annual Business Inquiry; Regional Accounts (ONS)
Mentrau byw sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a PAYE. Ffigur Prydain Fawr yw'r mentrau sydd â'u prif swyddfa yno (yn hytrach na'r rhai byw)
Nid yw swyddi cyflogedig yn cynnwys yr hunangyflogedig, y lluoedd arfog a swyddi dan hyfforddiant sy'n cael eu noddi gan y Llywodraeth
Nid yw cyfanswm y GVA yn cynnwys cartrefi preifat, ar sail 2007, ond mae'n cynnwys GVA hunangyflogaeth
Mae amaethyddiaeth yn cynnwys garddwriaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a hela.
Mae gweithgynhyrchu bwyd yn cynnwys bwyd, diod a thybaco
Mae sectorau eraill yn cynnwys gweithgynhyrchu heblaw bwyd, adeiladu, gwasanaethau'r sector preifat, gwasanaethau iechyd ac addysg breifat a chyhoeddus, gwasanaethau eraill y sector preifat
Nid yw'r ffigurau'n adio'n hollol gywir am eu bod wedi'u talgrynnu.

23. Mae'r tabl yn dangos bod cyfraniad y sector bwyd i Werth Ychwanegol Crynswth a chyfanswm cyflogaeth yn gymharol fach yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, byddai cyfraniad terfynol gan y sector bwyd yn ddibynnol ar ganfod y cyfraniadau ychwanegol i'r sector o'r sectorau adwerthu, cludiant, twristiaeth ac eraill. Mae'n ymddangos bod cyfran y sector fwyd o'r holl fentrau yn gymharol uchel. Wrth gwrs, dim ond rhan o'r ffordd y byddwn ni'n mesur cyfraniad economaidd ein sector fwyd yw'r ffigurau hyn, ac mae ei ran allweddol mewn diogelwch, gwytnwch economaidd mewn cyfnodau o ddirwasgiad, yn ogystal â'i gysylltiad uniongyrchol â chynhyrchu cynradd, yn ei wneud yn gydran arwyddocaol o'n economi ni.





## e) Y gadwyn cyflenwi bwyd a bwyta

24. Caiff y rhan helaeth o'r gadwyn fwyd ei hallforio - sydd ddim yn syndod o ystyried y farchnad ddomestig weddol gyfyngedig. Mae'r data bwyta cig coch yn dangos yn dda iawn pa mor ddibynnol y mae'r sectorau amaethyddol a chynhyrchu cynradd ar farchnadoedd allforio ar hyn o bryd: dim ond 4% o'r cig a gynhyrchir gennym sy'n cael ei fwyta yng Nghymru. Fel y nodwyd uchod, caiff y rhan helaeth o'r allbwn amaethyddol ei brosesu trwy nifer bach o gwmnïau mawr, boed hwnnw'n gig coch neu'n llaeth. Mewn gwaith ymchwil diweddar ar fusnesau bach a microfusnesau, daeth i'r amlwg bod y rhan fwyaf yn nodi Cymru fel eu prif farchnad, ond po fwyaf yw'r cwmni, po fwyaf yw canran y cynnyrch sy'n cael ei werthu i weddill y DU (DTZ, 2009).

25. Yma, mae cwmnïau prosesu bwyd yn cael canran uchel o'u hallbynnau cynradd mor lleol ag y gallant, ac felly, yn ychwanegu gwerth i'r cynnyrch terfynol. Cynhyrchion llaeth a chig coch yw'r prif fewnbynnau, ond mae yna farchnad prosesu leol ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion sy'n cynnwys bwyd y môr, grawn, ffrwythau a llysiau a chyw iâr (DTZ, 2009).

**Lleoliad marchnadoedd cig coch (2008)**

| Categori | Cyfanswm cynhyrchu | Wedi'i fwyta yng Nghymru | Wedi'i fwyta yng ngweddill y DU | Wedi'i fwyta'r tu allan i'r DU | Gwerth allforio (2008) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cig Eidion a Chig Llo | 99,000 | 4 % | 89% | 7% | £17m |
| Cig Dafad | 92,000 | 4% | 63% | 33% | £91m |

Yn 2009, roedd allforion Cig Oen Cymru'n werth £109 miliwn a Chig Eidion Cymru'n werth £31 miliwn.
Ffrainc oedd y farchnad fwyaf, yn mewnforio gwerth £77 miliwn o Gig Oen Cymru, gyda Gwlad Belg, yr Eidal a'r Almaen yn dilyn (datganiad i'r wasg gan Hybu Cig Cymru, 22 Mawrth 2010)


**Maint y busnes a lleoliad y farchnad fwyaf (2008)**

| Nifer y gweithwyr | Yng Nghymru | Yn y DU y tu allan i Gymru | Y tu allan i'r DU |
|---|---|---|---|
| 0-9 | 87% | 11% | 2% |
| 10-49 | 74% | 23.5% | 3% |
| 50-249 | 57% | 29% | 14% |
| 250+ | 38% | 63% | 0% |

(Ffynhonnell: DTZ, 2009)

26. Yn yr un modd â'r sector prosesu, caiff y sector manwerthu ei ddominyddu gan lond llaw o gwmnïau mawr, sy'n dilyn y patrwm ar gyfer manwerthu ledled y DU. Mae safleoedd gwerthu eraill yn cynnwys marchnadoedd ffermwyr, siopau fferm, cynlluniau blychau, archebion uniongyrchol a mentrau bwyd cymunedol. Nid oes llawer o ddata ar gael ar y cadwynau olaf ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae yna gyfleoedd o hyd i ddefnyddio'r sianeli manwerthu eraill yma, yn arbennig i fusnesau bwyd bach a microfusnesau bwyd.

### Lle cafodd bwyd/diod o Gymru ei brynu yn y 12 mis diwethaf – Cymru vs gweddill y DU 2010




Sail: yr ymatebwyr sydd wedi prynu bwyd/diod o Gymru yn y 12 mis diwethaf; Cymru = 867, Gweddill y DU = 149






27. O ran prif dueddiadau prynu defnyddwyr, mae cadwynau 'amgen' yn parhau i fod ar yr ymylon. Mewn arolygon diweddar ar dueddiadau defnyddwyr[14], nid yw'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar bryniant bwyd wedi newid rhyw lawer dros y degawd diwethaf. Y pris yw'r ffactor pwysicaf o hyd, yna blas, pa mor iachus ydyw, cynnwys braster a chynnyrch lleol.

28. Mae lleoedd eraill lle bwyteir bwyd yn cynnwys ffreuturau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a safleoedd gwasanaethau bwyd. Er ein bod yn gallu dweud fod gwaith ymchwil a wnaed gan Horizons Foodservice Intelligence yn 2003 yn nodi fod yna 16,325 o safleoedd Gwasanaethau Bwyd yn cyflogi 54,397 o bobl (Ymchwiliad Busnes Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2003), mae'n anodd cael gafael ar ddata ar y meysydd hyn o'r sector bwyd ar gyfer Cymru.

### Proffil Manwerthwyr a Defnyddwyr Archfarchnadoedd

Cyfrannau Marchnad Groseriaid y Deyrnas Unedig 2008




Ffynhonnell: *Living Costs and Food Survey (LCFS) 2008, (DEFRA/ONS)*

- Roedd gan bedwar o'r manwerthwyr bwyd a diod mwyaf 62% o'r farchnad bwyd a diod dialcohol yn 2008.
- Tesco oedd â'r gyfran fwyaf o'r farchnad bwyd a diod ddialcohol yn 2008 ar 25%.
- Siopa ar y Rhyngrwyd, sy'n cynnwys yr archfarchnadoedd mawr, oedd yn gyfrifol am 2.7% o werthiant bwyd a diod 2008, i fyny o 2.1% yn 2007 (cynnydd o 30%).
- Ffigurau Living Cost and Food Suervey yw'r data o'r ansawdd gorau ond nid yw mor gyfoes â'r Kanter Worldpanel.
- Mae ffigurau Kantar Worldpanel yn dangos bod gan Tesco 30% o'r farchnad, ond mae hynny'n cynnwys gwerthu nwyddau heblaw bwyd. Dengys hefyd bod cyfran Sainsbury, Morrisons, Waitrose ac Aldi o'r farchnad wedi cynyddu ychydig ar draul y Co-operative.

[14] Gwnaed y gwaith ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Beaufort Research, 2009


## Proffil Manwerthwyr a Defnyddwyr

### Sbardun Defnyddwyr

Er mai pris yw'r ffactor bwysicaf i ddefnyddwyr wrth brynu, mae rhesymau eraill hefyd yn bwysig ac mae'r tueddiadau tymor hir yn awgrymu y byddan nhw'n dal i fod yn bwysig yn y dyfodol.

### Galw Defnyddwyr

2.4 Tuedd sbardunau moesegol wrth ddewis bwyd, 2006-2009[24]




Ffynhonnell: Shopper Trends, 2009 (IGD)

- Mae 25% o'r defnyddwyr yn 2009 yn dweud eu bod wedi prynu bwyd Masnach Deg, bron deirgwaith yn fwy na'r 9% a ddywedodd yn 2006 eu bod yn gwneud.
- Mae cefnogaeth i gynhyrchwyr a chyflenwyr lleol hefyd yn tyfu. Mae'r nifer sy'n prynu bwyd lleol wedi dyblyu bron i 27% yn 2009 o'i gymharu â 15% yn 2006.
- Bwyd organig yw'r unig sbardun moesegol sydd wedi cwympo yn 2009. Gwelwyd cynnydd yn nifer y siopwyr oedd yn prynu bwyd organig rhwng 2006 a 2008 o 12% i 24%, ond cwympodd i 19% yn 2009.
- Yn ôl Family Food Survey, cafodd tua 4.1% o'r llysiau at ddefnydd y cartref yn 2007 eu tyfu mewn gerddi a rhandiroedd. Yn ôl nVision Research (2008), mae 36% o ddefnyddwyr eisoes yn tyfu neu'n bwriadu tyfu eu llysiau eu hunain.





### (f) Pam mae angen Strategaeth Fwyd arnom – Crynodeb

29. Mae'n amlwg o'r data a gyflwynir yma, er mai ond golwg rannol a gawn ohono, fod ein system fwyd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn systemau'r DU ac Ewrop a chaiff ei dylanwadu'n fawr gan y cyd-destun byd-eang ehangach. Mae hefyd yn dangos bod gan system fwyd Cymru gyfuniad o nodweddion sy'n ei gwneud yn unigryw, a diben y Strategaeth hon yw darparu cyfeiriad er mwyn manteisio ar y cyfleoedd penodol a nodwyd.

30. Mae'r sectorau amaethyddiaeth, garddwriaeth, pysgota a bwyd yn parhau'n agweddau pwysig ar fywyd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r hyn y gwyddom am y sectorau hyn yn amrywio; er bod gennym gryn dipyn o ddata a phrofiad o ddadansoddi'r sector amaethyddiaeth (er y gellir gwella hyn o hyd), mae yna feysydd mawr yn y system fwyd sydd heb eu dadansoddi rhyw lawer oherwydd yr anawsterau mewn casglu data priodol.

31. Mae tri phrif gategori cynhyrchiant yng Nghymru o hyd (cig eidion, oen a llaeth), ond mae'r rhain yn cael eu dylanwadu gan bethau sy'n digwydd o fewn y farchnad a/neu achosion naturiol (e.e. symudiadau ariannol, achosion o glefydau a chystadleuaeth). Mae'n bwysig adnabod a deall beth sy'n achosi'r newid a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar strwythur ffermio a phrosesu bwyd, fel y dangosir gan y gostyngiad yn nifer y ffermwyr llaeth a nifer y lladd-dai annibynnol. Mae'r newidiadau hyn yn amlygu gwendidau'r sectorau, ond maent hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnyrch amaethyddol o fath gwahanol a chyfuniadau gwahanol o gyflenwadau bwyd.

32. Mae angen gwell data hefyd er mwyn llywio polisïau ar gyfer y sectorau prosesu, dosbarthu bwyd, manwerthu a gwasanaethau bwyd. Er na ellid gwadu bod angen data, dylid cadw'r cydbwysedd rhwng cost-effeithiolrwydd casglu'r data a sut y bwriedir defnyddio'r data. Mae gennym beth tystiolaeth o systemau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu lleol, ac mae'r rhain yn cyd-fodoli â sector sy'n allforio'n bennaf (i weddill y DU yn bennaf) a ddominyddir gan gwmnïau mawr sy'n rheoli cyfleusterau prosesu sylweddol. Gall y ffordd y caiff y rhain eu hintegreiddio yn yr economi lleol fod yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu mwy o farchnadoedd a chynhyrchwyr lleol a gwella'r cyflenwad o ddeunydd craidd i broseswyr.

33. Mater pwysig i'r sectorau bwyd (gan gynnwys cynhyrchwyr crai) yw cael gwell dealltwriaeth o lif cynnyrch sy'n croesi ffiniau er mwyn cael darlun cywirach o'i wir werth i'r economi. Gall cael dealltwriaeth well o effeithiau niferus pob sector systemau bwyd ar agweddau eraill ar yr economi arwain at werthfawrogiad gwell o sut mae elfennau o'r system fwyd yn rhyngweithio.

34. I gloi, nid yw cydrannau manwerthu, gwasanaethau bwyd, caffael cyhoeddus, cymdeithasol, diwylliannol, iechyd a chymunedol y system fwyd wedi cael eu dadansoddi'n llawn yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn yn agweddau pwysig ar y system fwyd a rhaid eu hystyried wrth wella cynllunio er lles ein dinasyddion. Uchelgais y Strategaeth hon yw datblygu ffordd glir a chyfannol o ymdrin â pholisi bwyd, mewn partneriaeth â Llywodraeth a'i phartneriaid cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cymdeithas sifil yn ei hystyr ehangach. Bydd hynny'n ein galluogi i dargedu cyfeiriad ein cynlluniau gweithredu yn y dyfodol. Yn fwy uchelgeisiol fyth, mae'r Strategaeth yn anelu at integreiddio polisi o bob rhan o'r system fwyd, er mwyn gallu cyfeirio'n diwydiant a ninnau i gyd yn well at ddyfodol mwy proffidiol, iach a thymor hir.

'Bydd mynd ati ar sail datblygu cynaliadwy yn cefnogi gwytnwch y system fwyd'





## PENNOD 4
## Nodau'r Strategaeth Fwyd

1. Nod y Strategaeth hon yw meithrin sector bwyd sy'n gallu darparu bwyd o'r uchaf. Mae'n seiliedig ar egwyddorion **datblygu cynaliadwy**, sy'n cael eu pwysleisio yn y Strategaeth drwy ddarparu bwyd diogel, fforddiadwy ac iach a chael system fwyd sy'n creu manteision cymdeithasol cadarnhaol tra'n sicrhau eu bod yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd.

2. Bydd mynd ati ar sail datblygu cynaliadwy yn cefnogi **gwytnwch** y system fwyd. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r angen, i sicrhau bod ein pobl yn parhau i gael y bwyd sydd ei angen arnynt yn yr hirdymor yn wyneb yr ansicrwydd (byd-eang) cynyddol yn y farchnad ac er mwyn ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd. Mae'n bwysig ystyried galwadau eang cynaliadwyedd amgylcheddol, a phryderon cymdeithasol ac iechyd defnyddwyr, wrth adeiladu gwytnwch cadarn yn y system fwyd.

3. Rhaid i'r system fod yn ymatebol i'r heriau di-ri a wynebir gan fusnesau yn y sector bwyd. I'r diben hwn, rhaid gwella'r galluoedd sefydliadol a chydweithredol a fydd yn galluogi i'r sectorau amaethyddol, garddwriaethol, pysgodfeydd a bwyd ddatblygu hyblygrwydd ac amrywiaeth trwy'r gadwyn cyflenwi bwyd i gyd.

4. Bydd **cystadleurwydd** a **phroffidioldeb** yn parhau'n elfennau canolog o lwyddiant busnesau bwyd, a bydd y Strategaeth yn cefnogi datblygiad y sector. Mae'r priodoleddau hyn yn gysylltiedig iawn â **chynaliadwyedd** a **gwytnwch** y system fwyd. Wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a amlinellir yn y Strategaeth hon, bydd cynnydd mewn cystadleurwydd yn cael ei ddylanwadu fwyfwy gan gysyniadau ehangach a mwy heriol o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a fydd yn rhoi ystyriaeth fwy amlwg i gynaliadwyedd. Yn y modd hwn, gall *system fwyd* gynaliadwy a gwydn ddarparu manteision masnachol sylweddol i *fusnesau'r sector bwyd* trwy wella eu gallu i gystadlu a bod yn broffidiol.

5. Mae'r Strategaeth hon, felly, yn cyflwyno dull o fynd ati sy'n seiliedig ar system fwyd **gynaliadwy** a **gwydn**, ac mae'n cefnogi datblygiad sector bwyd mwy **cystadleuol** a **phroffidiol**.

Y nodau sy'n sail i'r Strategaeth Fwyd yw

**System Fwyd Gynaliadwy a Gwydn**

sy'n cwmpasu sector bwyd sy'n cynnwys

**Busnesau Cystadleuol a Phroffidiol**

‘Mae gan y system fwyd y potensial i feithrin cysylltiadau agosach rhwng yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas – tair conglfaen datblygu cynaliadwy’



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020


## PENNOD 5
## Sbardunau Strategol Allweddol

1. Mae’r nodau cysylltiedig a amlinellir uchod yn golygu dull strategol sy’n canolbwyntio ar y thema **Meithrin Cysylltiadau a Galluoedd**.

2. Gwireddir y thema hon trwy bum sbardun allweddol sy’n darparu strwythur gweithredol i gyflawni gweledigaeth y Strategaeth. Gellir datblygu dangosyddion cynnydd clir y gellir eu cymharu ar gyfer pob un o’r sbardunau hyn.

3. Dyma’r 5 sbardun allweddol

- **Datblygu’r Farchnad;**
- **Diwylliant Bwyd;**
- **Cynaliadwyedd a lles;**
- **Effeithlonrwydd y Gadwyn Fwyd; ac**
- **Integreiddio**




**Ffigur 3:** Y Pump Sbardun Strategol Allweddol

**Meithrin cysylltiadau a chapasiti – thema’r Strategaeth**

4. Mae gan y system fwyd y potensial i feithrin cysylltiadau agosach rhwng yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas – tair conglfaen datblygu cynaliadwy. Er mwyn gwireddu’r potensial hwn, mae’r Strategaeth yn ceisio cryfhau’r prosesau meithrin capasiti sy’n creu cysylltiadau arloesol ar draws a rhwng y cadwyni bwyd gwahanol. Y syniad canolog yw meithrin mwy o amrywiaeth yn y sector bwyd er mwyn creu cysylltiadau newydd a mwy cynaliadwy rhwng ardaloedd cefn gwlad a threfi, rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr bwyd a rhwng sectorau polisi. Bydd y cysylltiadau cyfredol yn cael eu cryfhau hefyd.

### Cryfhau cysylltiadau rhwng Ardaloedd Cefn Gwlad a Threfol

5. Gall y diwydiant bwyd yma gynnig bwydydd o ansawdd boddhaol[15] a all ddarparu manteision sylweddol i gynhyrchwyr a manwerthwyr lleol, tra'n cyfrannu at allforion a chynyddu'r incwm twristiaeth. Gellir pwysleisio'r cryfder hwn trwy wella'r cysylltiad rhwng yr ardaloedd cefn gwlad a'r ardaloedd trefol cyfagos a thrwy gynyddu'r cyflenwad o fwydydd a adnabyddir fel rhai o Gymru.

6. Bydd y Strategaeth hon yn annog ardaloedd trefol i wneud cysylltiadau economaidd newydd ac arloesol gyda chefn gwlad trwy ddarpariaeth bwyd.

### Cysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr

7. Gyda'n hadnoddau dŵr glân helaeth, tiroedd ffrwythlon a chymuned amaethyddol fedrus, mae gan Gymru'r gallu i gynhyrchu ystod o fwydydd o safon. Mae'r Strategaeth yn ceisio annog y diwydiant i wneud yn fawr o'n hadnoddau naturiol er mwyn ceisio ailgysylltu cynhyrchwyr bwydydd da â defnyddwyr cyfredol. Mae angen defnyddio dŵr yn fwy effeithlon o fewn y broses cynhyrchu bwyd ac yn y diwydiant yn gyffredinol – mae'r Strategaeth yn ein hannog i roi mwy o bwyslais ar hyn.

8. Mae angen pwysleisio'r defnydd o ddŵr yn ein nwyddau a'n gwasanaethau bwyd[16] er mwyn deall sut mae ein defnydd o fwyd yn effeithio ar ranbarthau sy'n brin o ddŵr a sut y bydd defnyddio mwy o gynnyrch lleol yn effeithio ar yr adnoddau dŵr a fydd ar gael yng Nghymru yn y Dyfodol[17].

9. Yn arbennig, bydd y Strategaeth yn cefnogi twf diwylliant bwyd iach, sy'n helpu pobl i ddilyn deiet cytbwys, gan gysylltu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud eisoes i'r perwyl hwn mewn strategaethau iechyd, wrth ddatblygu cymunedau, adfywio a thwristiaeth, fel Newid am Oes.

### Cysylltu cynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr

10. Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol, gall prynu mwy o fwyd lleol ddod â manteision pwysig i'r genedl gyfan. Bydd cysylltu cynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr o leiaf yn arwain at y canlynol:
    - mwy o arian yn aros yn yr economi lleol;
    - angen llai o fewnbynnau ynni (a'r nwyon tŷ gwydr yn sgil hynny) ar y sectorau cynhyrchu, prosesu a chludo bwyd; a
    - gwella'r gweithgarwch economaidd mewn cymunedau cefn gwlad a chymunedau llai, tra'n sicrhau bod bwyd ffres ar gael i bobl ym mhob cymuned.

[15] Mae'r Strategaeth yn defnyddio'r term 'Safon' i gyfeirio'n eang at fwydydd sydd â nodweddion a welir mewn safonau maeth a blas da, ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynhyrchu ecolegol.

[16] *Datganiad Safbwynt Polisi Strategol ar Ddŵr Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009),* http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/policystatement/?lang=en

[17] Pan ystyrir 'rhith-ddŵr', y DU yw'r chweched mewnforiwr dŵr mwyaf yn y byd, a dim ond 38 y cant o'r holl ddŵr a ddefnyddir gennym sy'n dod o'i hafonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr daear.





11. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd y Strategaeth yn annog ffurfiau newydd o gydweithio er mwyn cynyddu faint o fwyd sydd ar gael a faint o fwyd a gynhyrchir yma, yn ogystal ag annog cynhyrchwyr bwyd i feithrin y capasiti sydd ei angen arnynt i gyflenwi ystod o farchnadoedd gwahanol, fel archfarchnadoedd, caffael cyhoeddus, marchnadoedd ffermwyr ac arlwyfeydd.

### Cysylltu â marchnadoedd allforio

12. Nod y Strategaeth Fwyd yw creu marchnad allforio gref ar gyfer bwyd. Bydd y modd yr ymdrinnir â marchnadoedd allforio'n seiliedig ar y weledigaeth a'r nodau ar gyfer y system fwyd. Bydd thema'r Strategaeth, ***meithrin cysylltiadau a chapasiti***, yn rhoi cyfeiriad ar gyfer cryfhau datblygiad allforion o safon uchel, gan gynnwys yr angen am arferion ecolegol a chynaliadwy mewn bwydydd Cymru.

### Cysylltu polisïau

13. Bellach, cydnabyddir bwyd fel maes polisi canolog o fewn polisi cyhoeddus. Mae'r Strategaeth hon yn cynnig bod angen mwy o integreiddio eglur, sy'n cydnabod bod y ffordd y caiff bwyd ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'i farchnata'n effeithio'n uniongyrchol ar bolisi iechyd cyhoeddus, datblygu economaidd a chymunedol, twristiaeth, a'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Felly, bydd y Strategaeth yn ceisio cael pawb sy'n ymwneud â'r maes i ymrwymo i gydgysylltu ymhellach polisïau ar fwyd ar draws y Llywodraeth a'r diwydiant er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl er iechyd a lles ein dinasyddion.

14. Yn benodol, mae bwyd:
    - yn cael ei weld fel cydran bwysig o'r prif bolisi Datblygu Cynaliadwy, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* ac yn cael ei gynnwys mewn polisïau ar iechyd, "*Ein Dyfodol Iach*", datblygu addysgol ac economaidd;
    - yn nodwedd amlwg yng Nghynllun Datblygu Cefn Gwlad Cymru a gyflwynir trwy'r *Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad*;
    - yn cael ei ddatblygu'n weithredol fel rhan o'r agendau iechyd, tlodi a datblygu cymunedol;
    - yn elfen o *Gynllun Gofodol Cymru* o ran gweithio at greu Rhanbarthau Isel eu Carbon.

15. Mae'r Strategaeth Fwyd yn gweithio gyda'r polisïau cyfredol a datblygol hyn ac yn ceisio creu synergedd gyda rhannau eraill o bolisïau strategol sy'n ymwneud yn uniongyrchol berthnasol i fwyd.

CYSYLLTU POLISÏAU

Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned


Bydd y Strategaeth yn helpu i sicrhau ôl troed ecolegol bwyd llawer is ac allyriadau nwyon tŷ gwydr llawer is mewn perthynas â chynhyrchu, prosesu, dosbarthu a bwyta bwyd yng Nghymru, gan greu cyn lleied â phosibl o wastraff bwyd a chymaint â phosibl o gompostio.

Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad (FfBCh)

FfBCh yw'r strategaeth gyffredinol ar gyfer polisïau bwyd-amaeth a chefn gwlad. Cynlluniwyd y Strategaeth Fwyd i gydweddu â'r FfBCh a bydd yn cefnogi'r sector cynhyrchu cynradd, tra'n ehangu canolbwynt y polisi ar agweddau eraill ar y system fwyd. Mae'r FfBCh yn rhoi i'r Strategaeth Fwyd y cyfrifoldeb o helpu i ddatblygu diwydiant proffidiol a chynaliadwy a arweinir gan y farchnad ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer sy'n ychwanegu gwerth ychwanegol ac sy'n ymateb i dueddiadau'r farchnad.

Ein Dyfodol Iach

Mae Ein Dyfodol Iach yn gosod cyd-destun a chyfeiriad i'r camau a gymerwn i ddiogelu a gwella iechyd yng Nghymru, gan ddarparu sylfeini strategol ar gyfer datblygu arnynt yn y dyfodol. Ei nod yw gwella ansawdd ac ymestyn hyd bywyd, a sicrhau canlyniadau tecach i bawb. Mae'r amcanion hyn yn rhan annatod o Strategaeth Fwyd Cymru ac o'r cynllun gweithredu fydd yn ei dilyn.




**Figur 4:** Lle'r Strategaeth Fwyd ymhlith prif strategaethau bwyd a Chynlluniau Gweithredu Penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

## (a) SBARDUN ALLWEDDOL 1 - Datblygu'r Farchnad



Egwyddorion

- Bydd bwydydd lleol a bwydydd sydd wedi'u brandio'n lleol o Gymru yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo mewn marchnadoedd yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn ehangach;
- Bydd hunaniaeth bwydydd o Gymru yn cael ei chryfhau trwy set unigryw o ddangosyddion tarddle a ddylai fagu hyder yn rhinweddau cysylltiedig bwyd o Gymru; a
- Bydd y sector cyhoeddus yn defnyddio pŵer prynu i gefnogi datblygiad strategol y sector bwyd.

## Brandio bwyd Cymru

16. Mae brand Cymru y Gwir Flas wedi llwyddo i greu hunaniaeth unigryw i fwyd Cymru a'i gysylltiad cynhenid â'r dirwedd. Mae'r Strategaeth hon yn cyfarwyddo'r diwydiant i adeiladu ar y llwyddiant hwn, cynyddu'r gwerthfawrogiad o Gymru fel cartref bwyd o'r ansawdd uchaf, a chynhyrchu bwyd yn unol ag egwyddorion cynaliadwy. Mae'r Strategaeth yn cyfarwyddo brand y Gwir Flas i barhau i gefnogi ymdrechion y diwydiant yn hyn o beth yn ei drefniadau gwobrwyo. Mae datblygu brand cryf i adlewyrchu'r rhinweddau hyn yn hanfodol i adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd hyd yn hyn o ran:
    - meithrin cynnyrch mwy amrywiol;
    - creu mwy o lwybrau gwahanol i'r farchnad; a
    - rhoi gwerth ychwanegol i gynhyrchwyr a phroseswyr.

17. Mae'r Strategaeth yn gweithredu mewn modd allblyg gyda'r nod o feithrin cysylltiadau rhwng marchnadoedd lleol a rhanbarthol fel ei gilydd, tra ar yr un pryd yn ehangu eu cyfranogiad pwrpasol mewn marchnadoedd allforio. Diben y Strategaeth yw llunio brand gwahanol, clir, a fydd yn helpu cynhyrchwyr a phroseswyr i gystadlu mewn marchnadoedd lleol ac allforio. Y nod yw cysylltu'r diwydiant bwyd sy'n mynd o nerth i nerth gyda marchnadoedd ehangach trwy gyflwyno enghreifftiau amlwg o weithgarwch ac egni diwylliant bwyd yma.

## Adrodd ein hanes: rhinweddau gwahanol niferus bwydydd Cymru

18. Mae dull sy'n cynnwys ymchwil ymysg defnyddwyr a marchnata effeithiol sy'n adrodd hanes am fanteision bwyd i ac o Gymru yn hanfodol er mwyn cysylltu cynhyrchwyr gyda marchnadoedd sy'n dod yn fwyfwy ymwybodol o iechyd a chynaliadwyedd, marchnadoedd allforio a marchnadoedd rhanbarthol.

19. Bydd y Strategaeth hon yn meithrin marchnadoedd arbenigol, cynhyrchion a chlystyrau o ragoriaeth newydd, a ddylai fod yn uniongyrchol gysylltiedig â thwristiaeth ac amwynderau, ac a ddylai gael eu hyrwyddo gartref a thramor. Gan ystyried hyn, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio mwy ar system fwyd nodedig sy'n:
    - ailgysylltu cynhyrchu a phrosesu gyda chyd-destun ac adnoddau rhanbarthol, gan bwysleisio cynhyrchion sy'n gysylltiedig â Chymru'n uniongyrchol (waeth a ydynt yn cael eu marchnata yma neu beidio);
    - cynnwys cynhyrchion sydd wedi'u cynhyrchu mewn modd sy'n effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a chymaint â phosibl ar iechyd; ac sy'n
    - pwysleisio pa mor lleol yw bwydydd ond hefyd yn gallu darparu ar gyfer gwahanol anghenion deietegol a diwylliannol amrywiaeth o ddefnyddwyr.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020




WALES THE TRUE TASTE
CYMRU Y GWIR FLAS

**Defnyddio tarddle'n wybodus**

20. Cydnabyddir na all cynhyrchwyr yma gystadlu o bosibl gyda chynhyrchwyr o wledydd eraill o ran costau cynhyrchu neu bris yn unig. Mae'r Strategaeth yn annog ymdrechion i wahaniaethu cynhyrchion o ran safon, lles anifeiliaid a chynaliadwyedd. Dylai bwydydd sy'n dod o dan frand Cymreig ehangach ddangos eu bod yn:
    - mabwysiadu arferion agro-ecolegol da, gan gynnwys mesurau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a ddaw yn sgil cynhyrchu;
    - cydymffurfio â safonau lles anifeiliaid uchel;
    - cyfrannu at reoli adnoddau'n gynaliadwy – adnoddau fel pridd, mannau pysgota, dŵr a thirwedd;
    - defnyddio ynni'n fwy effeithlon ac yn lleihau allyriadau carbon ledled y gadwyn fwyd;
    - cyfrannu at ddeiet cytbwys iach; a
    - chyfrannu'n gryf at adfywio cymunedau cynaliadwy ym mhob cwr o Gymru.

21. Rhaid i'r gwaith o ddatblygu brand Cymreig i'r cynhyrchion gael ei wneud mewn ffyrdd nad ydynt yn ychwanegu costau nac yn rhoi dyletswyddau beichus diangen ar y diwydiant. Yr hyn sydd ei angen yw dealltwriaeth glir o'r syniad ehangach sy'n sail i darddle bwyd Cymru. Mae Enw Bwyd wedi'i Amddiffyn[18] yr UE yn un ffordd i ddefnyddwyr mewn marchnadoedd domestig a thramor nodi tarddle. Y Strategaeth fydd chwilio am ffyrdd i helpu'r diwydiant i ehangu o fewn dewis ehangach o sectorau ac mewn rhannau eraill o'r gadwyn gyflenwi.

22. I wneud hyn oll, bydd angen i'r Llywodraeth  a'r diwydiant ymgynghori a chydweithio'n ofalus, gan gynnwys, o bosibl, cyfres o newidiadau cynyddol yn y maes cyflenwi a'r maes galw. Bydd angen camau gweithredu ar y cyd a phwrpasol i gyflawni'r amcanion hyn.

**Mwy na labeli**

23. Nid yw datblygu'r farchnad yn y Strategaeth Fwyd yn ymwneud â chreu cyfeiriad cyffredinol yn unig. Mae hefyd yn canolbwyntio ar yr angen am gamau gweithredu penodol o fewn fframwaith marchnata clir a strategol, a allai gynnwys:
    - y sector manwerthu corfforaethol;
    - y sector arlwyo a chaffael cyhoeddus a phreifat;
    - marchnadoedd ffermwyr ac agoriadau dosbarthu uniongyrchol eraill; a'r
    - sectorau allforio sydd ar gynnydd.

[18] Mae Cynllun Enw Bwyd wedi'i Amddiffyn yr UE yn nodi bwydydd rhanbarthol a thraddodiadol y gellir sicrhau eu dilysrwydd a'u tarddle. O dan y system hon, bydd bwyd neu ddiod a gofrestrwyd ar lefel Ewropeaidd yn cael ei ddiogelu'n gyfreithiol yn erbyn dynwarediad ledled yr UE.





24. Byddai'n rhaid newid cyfeiriad yn sylweddol o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, sef marchnata bwyd o Gymru mewn modd generig er mwyn cynnwys ac egluro dimensiynau lleol a lleoliadau'r system fwyd yn glir. Mae'n anodd rhannu'r bwyd sydd ar gael i'r sectorau gwahanol - byddai'n rhaid edrych ar bob cynnyrch gan rannu gwersi, e.e. rhwng y gwaith o farchnata caws a chig oen/cig eidion Cymru.

25. Bydd y Strategaeth Fwyd yn annog Awdurdodau Lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach lle y bo'n bosibl. Ar lefel Awdurdodau Lleol, cydnabyddir fwyfwy'r cyfraniad y gall defnyddio bwyd lleol ei wneud o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

26. Dyhead arall sydd gan y Strategaeth Fwyd yw gwella maint a phroffil bwyd Cymru mewn safleoedd manwerthu mawr. Bydd angen i gynhyrchwyr, dosbarthwyr a'r sector manwerthu gydweithredu ar bob lefel.

**Mae bwyd swmpus a chynhyrchion arbenigol yn bwysig**

27. Bydd y gwaith o gynhyrchu allbynnau gwerth isel ar gyfer y sector cynhyrchu bwyd yn parhau, ond ni ddylai gwerth isel olygu ansawdd isel, a dylid talu sylw i sut mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at ein gweledigaeth strategol.

28. Gall pob sector gyfrannu at wella enw da rhyngwladol a chenedlaethol bwyd o Gymru. Dylai'r bwyd hwn gael ei nodweddu gan ei ansawdd uchel, safonau lles anifeiliaid uchel, dibynadwyedd y cyflenwad ac effeithlonrwydd ecolegol[19].

29. Felly, rhaid i'r Strategaeth hon fod yn berthnasol i'r marchnadoedd bwyd swmpus yn ogystal â'r marchnadoedd arbenigol.

**Marchnata gwell: datblygu marchnadoedd domestig ac allforio**

30. Dylid parhau i farchnata'n well i safleoedd gwerthu yn y wlad hon, gan dargedu'r sectorau preifat, cyhoeddus a dinesig fel ei gilydd. Nod y Strategaeth yma yw annog defnyddwyr i brynu mwy o fwyd a diod o Gymru a hyrwyddo bwyd a diod arobryn Cymru y Gwir Flas gan ddefnyddio pob cyfrwng posibl. Mae hyn yn berthnasol i lwyddiannau cyfredol fel allforion cig oen Cymru, ond mae'n berthnasol i sectorau eraill hefyd, fel llaeth, cig eidion, garddwriaeth, pysgod a dyframaethu, cynhyrchion â gwerth ychwanegol a chynhyrchion arbenigol. Mae'r Strategaeth yn derbyn bod lle arbennig i gefnogi mwy o gysylltiad rhwng datblygu marchnadoedd domestig a chefnogi 'diwylliant bwyd' (gweler Sbardun 2).

[19] Diffinnir effeithlonrwydd ecolegol yn y papur hwn fel cynhyrchu a throsglwyddo bwyd diogel, maethlon yn effeithiol trwy'r gadwyn gyflenwi, tra'n lleihau'r mewnbynnau, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff.

31. Mae'r Strategaeth yn cefnogi ymdrechion parhaus a chynyddol i feithrin y marchnadoedd sy'n bodoli eisoes a datblygu marchnadoedd newydd ledled y byd. Mae Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth arbenigol i helpu busnesau bwyd a diod Cymru i ddatblygu marchnadoedd tramor.

32. Dylid cryfhau mecanweithiau ar gyfer casglu gwybodaeth well am y farchnad, a dylai cynhyrchwyr a phroseswyr allu cael gafael ar wasanaethau marchnata yn haws er mwyn gallu hyrwyddo eu cynnyrch.

**Datblygu brand Cymreig cryfach**

33. Dylid parhau i gryfhau'r brand Cymru y Gwir Flas mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd er mwyn datblygu brandiau clir ac integredig sy'n pwysleisio bod y bwydydd yn dod o Gymru a'r set ehangach o nodweddion fel y nodwyd uchod. Yn ogystal â sicrhau'r set sylfaenol hwn o nodweddion, dylai brandiau fod yn ddigon hyblyg i alluogi cynhyrchion unigol i gyfathrebu eu hunaniaeth eu hunain.

34. Mae'r Strategaeth am i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r diwydiant weithio mewn partneriaeth i gefnogi ceisiadau pellach gan gynhyrchion i gynlluniau tarddle'r UE (fel Dangosyddion Daearyddol Gwarchodedig (PGI), Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO), Gwarant Arbenigedd Traddodiadol) er mwyn dilyn llwyddiant cig oen a chig eidion Cymru yn ennill statws PGI. Yn ogystal â hyn, bydd y Strategaeth yn annog labelu gwell ar fwyd Cymru sy'n mynd i farchnadoedd yn yr UE ac yn fyd-eang er mwyn creu cynhyrchion gwahaniaethol, sydd â chysylltiadau clir ag ardaloedd ac arferion penodol. Fel y dywedwyd yn gynharach, y Strategaeth fydd cefnogi'r diwydiant i ddefnyddio mwy o ddynodyddion tarddle o fewn ystod ehangach o sectorau ac yn rhannau eraill y gadwyn gyflenwi.

**Cefnogi mynediad i'r farchnad ac ysgogi Marchnadoedd Lleol a Rhanbarthol**

35. Bydd y Strategaeth yn parhau i gefnogi datblygiad marchnadoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer brandiau Cymreig a bydd yn annog polisïau caffael cyhoeddus rhagweithiol sy'n adeiladu ar bolisïau prynu lleol fel yr hyrwyddir yn y *Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol*. Rhennir gwerthoedd y polisïau caffael cyhoeddus hyn â rhannau eraill y sector gwasanaethau bwyd yng Nghymru

36. Gall tendrau ar gyfer ysgolion, ysbytai, colegau, prifysgolion a chartrefi gofal ofyn am gynnyrch ffres o ansawdd uchel a dylent wneud hyn. Er mwyn i hyn ddigwydd, dylid parhau i ddatblygu protocolau a chanllawiau fel bod gan y rheiny sy'n gysylltiedig â chaffael dealltwriaeth glir o sut i adlewyrchu gwerthoedd y Strategaeth tra'n ymhél â phenderfyniadau prynu. Dylai'r penderfyniadau hyn gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE sy'n gallu bod yn gymhleth i'w dehongli. Fodd bynnag, trwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant digonol a chyson, gellid sicrhau bod llawer mwy o fwyd yn cael ei brynu'n lleol gan gyrff y sector cyhoeddus.





37. Mae'r Strategaeth hon yn cefnogi'r rhan bwysig y gall hyrwyddo diwylliant bwyd Cymreig cryfach (gweler Sbardun 2) ei chwarae i ddatblygu marchnadoedd lleol a rhanbarthol ar gyfer bwyd o ansawdd.

38. Mae archfarchnadoedd yn rym nerthol o fewn y sector bwyd. Bydd datblygu mwy o lwybrau i fynd â bwyd i'r farchnad (fel a drafodwyd yn y *Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol*) a chynnyrch â brand Cymreig cryfach o fewn y cadwyni corfforaethol yn helpu i unioni peth o'r anghydbwysedd o ran cipio gwerth, ond bydd angen mwy o newid strwythurol i hyn ddigwydd.

    Mae'r Strategaeth i gynnig cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu corff annibynnol i fonitro tegwch o fewn y sector manwerthu a mynnu cydymffurfiaeth â Chod Arferion Cyflenwi Groseriaid sy'n disgrifio'r arferion gorau ar gyfer cadwyn cyflenwi groseriaid[20].

**Hyrwyddo mentrau entrepreneuraidd**

39. Mae'r Strategaeth yn annog cefnogi mentrau entrepreneuraidd sy'n creu cyfleoedd i bobl ddod ynghyd i ymdrin â datblygu bwyd Cymru. Bydd y rhain yn cynnwys gwahanol fathau o fentrau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys, er enghraifft:
    - cefnogi ac annog mwy o fusnesau bwyd a diod i fentro a datblygu cynhyrchion newydd i'r marchnadoedd domestig a thramor;
    - cynnal a datblygu cronfa ddata o gynhyrchwyr sy'n cynnig cynhyrchion ffres/o ansawdd o Gymru a'i gwneud yn hygyrch i fwytai lleol; a
    - datblygu system frandio glir, safonol i fwytai a mannau gwasanaethau bwyd eraill sy'n cynnig cynhwysion lleol. Gallai hyn gynnwys brand Cymru y Gwir Flas a gwell rôl ar gyfer y dynodiad enwau bwyd UE a'i amddiffynnir.

40. Mae'r Strategaeth yn annog yr arfer o rannu enghreifftiau da er mwyn i fwy yn y diwydiant allu manteisio ar gontractau cyflenwi mawr iawn.

41. Mae'r Strategaeth yn annog cysylltiad rhwng cefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu'r farchnad yn y sector bwyd â mecanweithiau i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol, gan gynnwys cefnogi newydd-ddyfodiaid ifanc. Dylai'r cysylltiadau hynny ystyried rhai o'r problemau ehangach a geir ynghylch sgiliau a drafodwyd yn Sbardun Allweddol 4 (Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi).

[20] Mae gorchymyn GSCOP ar gael ar www.competition-commission.org.uk

## (b) SBARDUN ALLWEDDOL 2 - Diwylliant Bwyd



**Egwyddorion**

- Bydd diwylliant bwyd Cymru yn cael ei gryfhau a'i ddefnyddio i ddatblygu galw cyson am fwyd o safon sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys iach. Dyma un o gynhwysion pwysicaf system fwyd gynaliadwy; a
- Bydd twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at farchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru.

Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

### Diwylliant Bwyd Cynaliadwy

42. Er mai galw cyson am fwyd o safon yw un o brif gynhwysion system fwyd gynaliadwy, mae angen i gynhyrchwyr wybod y gallant droi at farchnad fwyd ag iddi amrywiaethau, sy'n cynnwys mwy o gyfleoedd na marchnadoedd arbenigol yn unig.

43. Nid yw bwyd da'n golygu bwyd o ansawdd uchel yn unig, ac mae rhoi mwy o wybodaeth i'r cwsmer am y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio bwyd fforddiadwy yn dod yn elfen hanfodol o system gynhyrchu a darparu bwyd cynaliadwy.

44. Bydd sicrhau bod mwy o wybodaeth am fwyd ar gael yn ein cymunedau'n helpu i ddatblygu diwylliant bwyd cryfach, a fydd yn sbarduno'r galw am fwyd heb ei ail a gynhyrchwyd yn lleol.

### Helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am fwyd

45. Mae mwy o wybodaeth am fwyd yn arwain at rymuso defnyddwyr ymhellach ac mae'n helpu defnyddwyr i ddeall bod eu dewisiadau bwyd a'u tueddiadau prynu'n effeithio'n fawr ar:

    - eu hiechyd;
    - yr amgylchedd a'i adnoddau;
    - lles anifeiliaid; a'r
    - economi.

46. Mae'r Strategaeth o blaid labeli bwyd cliriach ac addysgu defnyddwyr. Yng ngoleuni hynny, mae'r Strategaeth yn cefnogi cryfhau'r rheolau ar labelu'r wlad y daw'r cynnyrch ohono, yn enwedig o safbwynt cig a chynnyrch llaeth. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw'r prif sefydliad sy'n ceisio helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ac mae wedi cynnal ymgyrchoedd llwyddiannus yn hysbysu'r cyhoedd am agweddau ar iechyd defnyddwyr – fel y system goleuadau traffig ar gyfer labelu cynnwys bwyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda gwledydd eraill Prydain yn arwain fwyfwy ar faterion fel labelu bwyd a dylanwadu ar yr agenda ymchwil i fwyd.

47. Oherwydd hyn, mae'r Strategaeth Fwyd yn ceisio cyfeirio pobl fel eu bod yn wybodus ac yn greadigol am eu bwyd, i ddysgu am sut y cafodd ei gynhyrchu a sut y caiff ei baratoi. Mae ceisio mynd ati mewn modd "ysgol gyfan" ledled Cymru yn ganolog i'r ymdrech hon – hynny yw, dull sy'n ymwreiddio'r neges am fwyta'n iach o fewn pecyn addysgol ehangach sy'n pwysleisio'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng bwyd, ffitrwydd, iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae'r dull ysgol gyfan ar waith eisoes trwy'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach - gyda 99% yn cymryd rhan ynddi. Mae nifer o fentrau wedi dangos bod y dull hwn yn gallu talu ar ei ganfed pan fydd yn hwyl, yn ysgogol ac yn galluogi pobl, hyd yn oed yn yr amgylcheddau cymdeithasol mwyaf heriol. Mae yna lawer o waith da'n cael ei wneud eisoes – fel Canllawiau Cynulliad Cymru ar ddatblygu

[21] Morgan, K. ac R. Sonnino (2010) Re-thinking School Food: The Power of the Public Plate. Yn: *State of the World 2010: Transforming Cultures: From Consumerism to Sustainability. Washington*: The World Watch Institute.

polisi bwyd a ffitrwydd ysgol gyfan, a gwaith sydd ar droed yn ehangach ar y gwahanol lefelau o sgiliau sydd eu hangen ar draws y sector. Mae'r gwaith o fagu dealltwriaeth o'r ffaith bod angen bod yn gwbl ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch yn parhau, ac er bod y ddarpariaeth o hyfforddiant wedi bod yn sylweddol ac yn effeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n bwysig dal ati a pharhau'n wyliadwrus wrth i sefyllfaoedd newid ac er mwyn osgoi hunanfodlonrwydd.

48. Mae'r Strategaeth yn teimlo y daw buddiannau positif o ran iechyd a diwylliant yn sgil cefnogi ymdrechion i ddysgu'n plant a'n pobl ifanc i goginio. Er bod gan ysgolion eu rhan yn hyn o beth, deellir bod sectorau eraill hefyd yn dysgu ac yn newid ymddygiad, fel addysg bellach, dysgu'n seiliedig ar waith, gwaith ieuenctid ac addysg gymunedol i oedolion. Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl positif posib arddangosfeydd mewn gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr i hyrwyddo sgiliau coginio.

49. Nod y Strategaeth yw gwneud pobl yn falch o'u diwylliannau bwyd amrywiol, a bod yn ymwybodol o'r hyn y gallant eu cyfrannu at ddatblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng cynhyrchu, paratoi a bwyta bwyd, waeth pa gymuned leol y maent yn perthyn iddi neu beth fo'i statws economaidd-gymdeithasol.

Y Prosiect Bwyd o Bwys

Yn 2006, dewiswyd ardal o Gaerdydd i dreialu prosiect addysg bwyd uchelgeisiol tu hwnt o'r enw *Bwyd o Bwys*, a luniwyd i feithrin gwybodaeth plant am gadwyn fwyd yr ysgol, o'r "had i'r plât".

Un o nodweddion mwyaf arloesol y prosiect oedd proses ddysgu rhwng cyfoedion, lle dysgwyd plant i ddysgu plant eraill am fanteision bwyta'n iach.

Yr hyn a nodweddai'r prosiect *Bwyd o Bwys* oedd eu bod yn bwyta'r pethau a dyfwyd ganddynt, yn dysgu gan ei gilydd ac, uwchlaw popeth, yn mynd ati'n ddyfal i newid eu harferion.

Profodd y prosiect fod plant yn y cymunedau mwyaf amddifad yn gallu dysgu i werthfawrogi bwyd iach os yw'r cyfleoedd dysgu'n eu hysgogi ac yn eu grymuso ddigon.

(Ffynhonnell: Morgan, K.J. ac R. Sonnino (2008) The School Food Revolution: Public Food and the Challenge of Sustainable Development. Llundain: Earthscan





**Twristiaeth fel hyrwyddwr bwyd Cymru**

50. Dylai cymeriad a harddwch unigryw ein tirwedd a'n harfordir - rhinweddau a deimlir yn nelweddau mynyddoedd, dyffrynnoedd, afonydd, moroedd a chynhesrwydd ein cymunedau - gysylltu'n agos â'r bwyd yr ydym yn ei gynhyrchu. Dylid manteisio i'r eithaf ar hyn wedyn wrth i ni geisio sefydlu nodweddion unigryw ein bwydydd ar y farchnad.




51. Fel y nodwyd yn y Cynllun *Gweithredu Twristiaeth Bwyd*, dylid annog busnesau ffermio, garddwriaeth a physgota i gynnig amrywiaeth o wasanaethau i dwristiaid sy'n pwysleisio nodweddion unigryw ein topograffi a'n hadnoddau naturiol wrth hyrwyddo'r bwydydd cysylltiedig. Mae'r Strategaeth yn annog y rheini sy'n darparu bwyd i dwristiaid i ddefnyddio cynhwysion lleol ac i gyhoeddi hynny fel nodwedd positif o'r bwyd y maen nhw'n ei gynnig.

52. Bydd prydau bwyd sy'n defnyddio cynhwysion lleol ffres yn ychwanegu at y cysylltiad clir rhwng yr elfennau hyn a'r hyn sydd gennym i'w gynnig o ran bwyd o ansawdd.

Gwariant Twristiaid ar Fwyd

Mae ymwelwyr sy'n ymweld â Chymru am wyliau byr yn gwario 18.7% o gyllideb eu gwyliau ar fwyd a diod, tra bod gwariant y rheiny sydd ar wyliau hirach yn syrthio i 17.8%. Rhennir y gwariant hwn rhwng bwytai, bariau, caffis, lleoedd bwyd cyflym a siopau cludfwyd eraill, a bariau brechdanau a siopau bara, gyda'r gyfran uchaf ohono'n cael ei wario mewn bwytai.

(Ffynhonnell: Arolwg Gwariant Croeso Cymru, 2005; Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd: Bwyd a Diod i Gymru; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

### Datblygu Diwylliant Bwyd - Grymuso dinasyddion a defnyddwyr

53. Dylai mentrau i roi mwy o rym i ddinasyddion a defnyddwyr gynnwys cyfres o gamau penodol[22], gan gynnwys:
    - rhaglenni addysg bwyd mewn ysgolion;
    - ymweliadau plant ysgol â ffermydd a chefn gwlad;
    - mynediad agored i ddiwrnodau fferm agored ac arddangos; a
    - datblygu gwyliau bwyd ymhellach

54. Mae addysg ein dinasyddion ar fanteision bwyta'n iach yn sbardun hanfodol wrth ddatblygu diwylliant bwyta ac agwedd at fwyd iachus a chadarnhaol sydd â'r gallu i gyflawni gwelliannau sylweddol yn eu hiechyd a'u lles gydol oes.

55. Bydd y Strategaeth yn annog y gwaith o greu lleoedd cyhoeddus newydd i gynhyrchwyr a defnyddwyr sy'n seiliedig ar ddiwylliant bwyd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys:
    - mentrau bwyd cydweithredol (fel y Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd[23]);
    - mentrau tyfu cymunedol – rhai ffurfiol ac anffurfiol;
    - amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned a chynlluniau blychau; a
    - mentrau sy'n gwneud cynhyrchion bwyd cynaliadwy a fforddiadwy yn hygyrch i gymunedau o amddifadedd mewn ardaloedd trefol a gwledig.

[22] Bydd opsiynau i ymchwilio i ddatblygu mentrau/rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y ysylltiad rhwng cynhyrchiant â defnyddwyr. Gallent gynnwys menter yr Ecoysgol, y polisi ysgolion sy'n rhoi'r ffocws ar y Gymuned a gwaith y Grŵp Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang.

[23] Anogir a chefnogir y Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol yng Nghymru gan yr Uned Adfywio Gwledig a chaiff ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.





### Rheoli cynaliadwyedd y ddarpariaeth fwyd gyhoeddus

56. Mae yna gyfle i wella cynlluniau cynnal y cadwyni cyflenwi a ddatblygwyd eisoes yn y *Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol* trwy sicrhau bod:
    - addysg bwyd mewn ysgolion yn seiliedig ar fabwysiadu dull "ysgol gyfan";
    - mentrau'n cael eu cyflwyno i ddefnyddio'r ffreutur cyhoeddus fel lleoliad i addysgu pobl am fanteision dewis bwydydd cynaliadwy;
    - addysg graidd ar gynaliadwyedd yn cynnwys pynciau megis cynhyrchu a dosbarthu bwyd; a
    - bod addysg ar gael yn eang ledled y diwydiant gyda'r nod o ddeall achosion gwastraff bwyd a sut gellir ei leihau.

### Cysylltu cynhyrchiant bwyd â diwylliant a marchnata

57. Mae'r Strategaeth yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei rhanddeiliaid allweddol a'i phartneriaid yn y diwydiant i feithrin eu gwaith partneriaeth er mwyn parhau i ysgogi a datblygu'r diwylliant bwyd trwy fesurau sy'n cysylltu pobl gyda sut y cynhyrchir bwyd trwy fesurau sy'n:
    - hyrwyddo gwerth a statws gwobrau bwyd Cymru y Gwir Flas;
    - annog y diwydiant a manwerthwyr i chwarae fwy o ran i addysgu defnyddwyr;
    - cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwerthu uniongyrchol; a
    - hyrwyddo a gwella digwyddiadau bwyd a chyfranogiad y cyfryngau.

58. Dylid annog gwobrau Cymru y Gwir Flas i adeiladu ar ei llwyddiannau hyd yma er mwyn cynyddu nifer y cyfleoedd i werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr ledled y wlad. Dylid annog a chefnogi hyrwyddwyr bwyd sy'n gweithredu ar wahanol gamau o'r gadwyn gyflenwi (h.y. cynhyrchwyr, proseswyr, arlwywyr, perchnogion bwytai ac ati) i geisio ysbrydoli cymunedau ac ennyn brwdfrydedd ynddynt am fwyd.

Pencampwr y Gwir Flas 2010-2011 Simon Wright



Mae Simon Wright yn ysgrifennu ac yn darlledu am fwyd, ac yn gyd-berchennog y Polyn yn Nantgaredig ger Caerfyrddin. Y syniad sy'n llywio meddwl Simon yw nad oes yn rhaid i fwyd da fod yn ddrud ac mae hyn wedi dylanwadu ar gyfeiriad ei yrfa – o fod yn olygydd yr AA Restaurant Guide i fod yn berchennog ty bwyta, darlledwr a ffermwr achlysurol.

Mae'n optimistig ynghylch dyfodol bwyd o Gymru a llwyddiant cynhyrchwyr bwyd o Gymru, ond nid yw mor hapus â'r anwybodaeth am ein bwyd ac o ble mae'n dod. "Mae angen inni ddysgu'n plant am fwyd. Mae angen iddyn nhw wybod o ble mae eu bwyd yn dod, ble i fynd i brynu bwyd da a sut i'w goginio. Yn wir, mae angen inni ailddechrau dysgu coginio yn ein hysgolion."

## (c) SBARDUN ALLWEDDOL 3 - Sustainability Cynaliadwyedd a lles ein pobl



### Egwyddorion

- Mae'r Strategaeth Fwyd yn pwysleisio ac yn derbyn bod angen i gadwynau bwyd cynaliadwy fod ag effeithlonrwydd ecolegol yn rhan ganolog ohonynt;
- Bydd y sector bwyd yn cael ei annog i fod yn gyfrifol am gyfrannu cymaint â phosibl at liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd yn ddomestig; a
- Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod cyfrifoldebau moesol Cymru o fewn system fwyd fyd-eang.





### Bwyta'n Iach

59. Mae'r Strategaeth Fwyd hon yn pwysleisio cynhyrchu a datblygu bwyd sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach er mwyn gwella lles ein pobl. Mae'n ganolog i amcanion datblygu cynaliadwy o ran gwella cyflwr economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a'u cymunedau a gwella ansawdd bywyd ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

60. Gall y swm a'r math o fwyd y mae pobl yn ei fwyta, yn ogystal â'r ffordd y caiff ei baratoi, wneud cyfraniad pwysig tuag at ddiogelu a gwella iechyd. Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd fod bwyd a diod yn gyfrifol am oddeutu traean o farwolaethau o ganlyniad i glefyd y galon a chwarter y marwolaethau o ganlyniad i ganser yn y DU. *Casgliad Food Matters*[24] oedd y gellid osgoi 70,000 o farwolaethau cyn pryd bob blwyddyn pe bai pobl yn y Deyrnas Unedig yn bwyta deietau sy'n bodloni'r canllawiau maeth. Mae afiechyd sy'n deillio o ddeiet yn ychwanegu rhyw £8 biliwn at gostau'r GIG bob blwyddyn ac mae gordewdra ar ei ben ei hun yn ychwanegu baich o £15.8 biliwn ar yr economi ehangach. Mae peth o'r baich afiechyd hwn yn deillio o fwyta cig coch a chynhyrchion llaeth, ond mae tystiolaeth dda bod bwyta llai o gig yn arwain at brinder elfennau hybrin pwysig (fel haearn a rhai fitaminau).

61. Dim ond 36% o oedolion sy'n dweud eu bod yn bwyta'r pum dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir y dydd (Arolwg Iechyd Cymru 2008). Dylai'r system fwyd helpu i leihau'r straen economaidd ar gostau gofal iechyd clefydau sy'n ymwneud â deiet a chost y clefydau hyn ar les ein dinasyddion. Er mwyn cynorthwyo pobl i newid eu hymddygiad a bwyta'n fwy iachus, mae angen i ni sicrhau mai'r dewis iach yw'r dewis hawsaf. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r gwaith sydd ar droed, yn arbennig yn y sector cyhoeddus, i gynyddu'r opsiynau iach sydd ar gael a'u marchnata.

62. Mae'r bwyd mewn ysgolion yn gwella diolch i gyflwyniad Blas am Oes, ac mae canllawiau ar fwyta'n iach wedi cael eu dosbarthu i leoliadau blynyddoedd cynnar, clybiau ieuenctid a chanolfannau hamdden. Mae ysbytai'n cael eu hannog i fod yn esiamplau o arfer da, gyda mentrau fel Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan a Gwerthu sy'n Hybu Iechyd mewn Ysbytai. Mae'r gwaith i wella bwyd mewn ysbytai, cartrefi gofal a gosodiadau cymunedol yn gymorth i ymateb a mater cam-faethu yn yr henoed a'i cefnogi i fwyta'n iach. Mae'r mentrau hyn yn creu cyfleoedd i gwmnïau ymateb i farchnad newidiol a bod ar flaen y gad yn darparu bwydydd mwy iachus i ateb galwadau'r farchnad ddatblygol hon, tra'n cyfrannu at wella iechyd pawb.

63. Mae mentrau fel y rheiny a nodwyd uchod yn ganolog i *Strategaeth Tlodi Plant newydd Cymru a Chynllun Cyflenwi Llywodraeth Cynulliad Cymru*, a lansiwyd er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch am dri mis ar 12 Mai 2010. Mae'r *Strategaeth Tlodi Plant* newydd yn seiliedig ar 13 Amcan Eang Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ac mae'n cynnwys ymrwymiad i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant (cyn belled â bod ei angen i sicrhau lles ein plant). Mae'r *Strategaeth Tlodi Plant* newydd yn gosod cyfres o gamau polisi sy'n flaenoriaethau – sy'n cynnwys "mwy o bwyslais ar bolisïau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel" a "mwy o bwyslais ar addysgu rhieni am bwysigrwydd deiet ac ymarfer"[25].

[24] Food Matters: Towards a Strategy for the 21st Century, Swyddfa'r Cabinet Gorffennaf 2008.

[25] Mae'r Strategaeth Tlodi Plant newydd yn nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'r Cynllun Cyflenwi cysylltiedig yn nodi'r camau polisi a'r ymrwymiadau a gynlluniwyd i wireddu'r weledigaeth hon. Cyflwynwyd Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Cyflenwi ar 12 Mai 2010 am ymgynghoriad cyhoeddus am dri mis. http://wales.gov.uk/consultations/childrenandyoungpeople/cpstrategy/?skip=1&lang=cy

## Cynaliadwyedd amgylcheddol ledled y sector bwyd

64. Mae cynhyrchu a darparu bwyd yn creu ôl troed ecolegol sylweddol. Yn 2003, 5.16 hectar global (hag) y person oedd ôl troed ecolegol Cymru ond dim ond 1.8hag y person dir biolegol sydd ar gael yn y byd bellach. Mae bwyd yn gyfrifol am 20% o ôl troed ecolegol Cymru[26]. Mae gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â bwyd yn ychwanegu at ôl troed ecolegol teithio ac ynni - gweithgareddau fel coginio, oeri a theithio i siopau. Casgliad yr adroddiad ar yr ôl troed ecolegol oedd mai'r gadwyn gyflenwi sy'n gyfrifol am gyfran fwyaf ôl troed ecolegol gweithgareddau defnyddio bwyd. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau pobl wrth brynu bwyd yn cael effaith arwyddocaol ar yr ôl troed gyffredinol. Mae gwariant ar arlwyo yn cael effaith fawr hefyd ar ôl troed ecolegol bwyd. Ar sail senarios, amcangyfrifir y gallai gwastraffu llai o fwyd leihau ôl troed ecolegol bwyd 7.2% rhwng 2001 a 2020.

65. Bydd lleihau'r effaith hon yn hanfodol os am gyflawni'r ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd a nodwyd yng *Nghynllun Pontio Carbon Isel* y DU ac yn y ddogfen Strategol *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* ac ddiogelu adnoddau naturiol fel ynni, tir, dŵr a phridd. Gan ddilyn y cyfeiriad hwn eisoes, mae *Cynllun Gofodol Cymru* wedi sicrhau bod gwybodaeth am ôl-troed ecolegol chwe ardal y Cynllun wedi cael ei chyhoeddi.

66. Bydd cadwyni cyflenwi bwyd sy'n effeithlon o ran ecoleg yn ceisio lleihau mewnbynnau, galwadau ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff tra'n cynhyrchu a darparu bwyd diogel a maethlon. Bydd y pwyslais ar fabwysiadu arferion da ar draws y gadwyn, tra'n ychwanegu gwerth i gynhyrchwyr a phroseswyr lleol a rhanbarthol.

67. Drwyddo draw, mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am ryw 11% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru ac ar sail ffigurau Prydain, mae gweithgynhyrchu bwyd, cludiant a manwerthu yn gyfrifol am 5.5% arall[27]. O gymryd cymhwyso'r ffigurau hyn i Gymru, ar sail y 5,200 mil o dunelli o allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid ($CO_2e$) a gynhyrchir trwy amaethyddiaeth (cynhyrchu cynradd) bob blwyddyn, mae prosesu a dosbarthu bwyd yn cynhyrchu 2,600 $CO_2e$ arall o allyriadau. Mae Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru[28] yn gosod y nod o leihau'r allyriadau hyn i gwrdd â'r targed mwy cyffredinol o leihau allyriadau 3% bob blwyddyn o 2011 ymlaen.

[26] Wales' Ecological Footprint - Scenarios to 2020. Adroddiad Athrofa Amgylcheddol Stockholm i Lywodraeth Cynulliad Cymru 2008.

[27] Astudiaethau cwmpasu i glustnodi cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac i leihau gwastraff yn y gadwyn cynhyrchu bwyd. Ar gyfer DEFRA Chwefror 2007.

[28] http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/101006ccstratfinalen.pdf







68. Mae defnyddio dŵr yn fwy effeithlon yn rhan bwysig o addasu i'r newid yn yr hinsawdd i gynhyrchwyr cynradd[29]. Yn ogystal â'r dŵr corfforedig mewn bwyd sy'n cael ei fewnforio, mae'n werth cofio bod llawer iawn o ddŵr corfforedig yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd cynradd yn nes adref. Er enghraifft, i gynhyrchu'r 1,550 miliwn litr o laeth a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2006, roedd angen 1.7 biliwn metr ciwbig o ddŵr corfforedig. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y dŵr a ddefnyddiwyd i brosesu, dosbarthu a marchnata'r llaeth.

69. Yn ogystal â hyn, y sectorau sy'n ymwneud â bwyd a diod yw'r prif ddefnyddwyr dŵr masnachol yng Nghymru[30] ac mae'n bosibl eu bod yn defnyddio llawer o ynni hefyd ar gyfer cynhesu dŵr. Bydd effeithlonrwydd dŵr yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i liniaru'r allyriadau o'r sector hwn.

70. Yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau i greu ynni adnewyddadwy, llai o garbon a thechnolegau gwyrdd eraill, mae'r dull hwn yn cydnabod fod gan y sector bwyd ran allweddol mewn creu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau naturiol yn ofalus a darparu sinciau carbon a deunydd crai adnewyddadwy.

[29] Mae Strategaeth Adnoddau Dŵr i Gymru yn amlinellu pwysau yn y dyfodol ar adnoddau dŵr ac amaeth. http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/40731.aspx

[30] Arlwyo a thwristiaeth, amaethyddiaeth a bwyd a diod yw tri o'r pedwar diwydiant sy'n defnyddio'r cyflenwad dŵr cyhoeddus fwyaf, heb gynnwys dŵr a ddefnyddir mewn cartrefi yn ôl data Dŵr Cymru.

71. Mae '*Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru*'[31] yn fecanwaith cyflenwi pwysig yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Mae'n ceisio gwella'r cystadleurwydd a phroffidioldeb, ysgogi'r galw am gymdeithas carbon isel gwastraff isel a chryfhau'r sector ynni carbon isel yng Nghymru. Rhennir y *Strategaeth Swyddi Gwyrdd* yn dair blaenoriaeth uchel: cefnogi busnes, meithrin arloesed a thechnoleg a buddsoddi mewn economi mwy cynaliadwy.

**Cysylltiadau Cryf â Strategaethau Datblygu Cynaliadwy**

72. Mae yna gysylltiadau cryf rhwng y sector bwyd a chynaliadwyedd mewn meysydd eraill hefyd. Un o'r enghreifftiau amlycaf yw maes gwastraff bwyd. Mae cryn bwyslais ar leihau gwastraff yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* ac mae'r flaenoriaeth a roddir i hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r Strategaeth Fwyd, o gofio mai gwastraff bwyd sy'n gyfrifol am dros 30% o ôl troed ecolegol gwastraff masnachol a diwydiannol yng Nghymru[32].

73. Gall polisi bwyd gynnig arweiniad cryf yn y cyd-destun hwn trwy bwysleisio:

- lleihau gwastraff, gan gynnwys rheoli dognau a storio bwyd yn effeithiol;
- lleihau ac ailgylchu deunydd pacio;
- busnesau i fod yn fwy cyfrifol am y gwastraff a gynhyrchir; pwyslais mawr ar gompostio gwastraff; a
- throi gwastraff yn ynni, bio-nwy a threuliad anaerobig

74. Unwaith eto, daw'r manteision i'r amlwg yn y gost a'r arbedion mewn deunydd crai, wrth leihau gwastraff organig a nwyon tŷ gwydr ac wrth ailddefnyddio adnoddau'n well. Er enghraifft, comisiynodd y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd waith i chwilio am gyfleoedd i leihau nwyon tŷ gwydr yng nghadwyni cyflenwi bwyd Cymru. Gan ddefnyddio technegau Dadansoddi Cylchoedd Bywyd, cyfrifwyd y carbon corfforedig ($CO_2e$) mewn rhai allforion bwyd o Gymru, gan roi sylw yn y lle cyntaf i gig oen, llaeth a chaws, tatws a mefys[33]. Dangosodd yr astudiaeth bod llawer o le i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth gynhyrchu pob un. Yn ôl yr ymyriadau a gafodd eu modelu, gellid lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 32% yn achos cig oen, 55% yn achos llaeth, 42% yn achos caws, 45% yn achos mefys a 136% yn achos tatws ffres.

75. Roedd y diweddariad o *Gynllun Gofodol Cymru 2008* yn cynnwys ymrwymiad gan bob Ardal Cynllun Gofodol i ddatblygu cynlluniau i geisio dod yn rhanbarthau carbon isel. Comisiynwyd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i lunio adroddiad *(Cymru Carbon Isel: Blaenoriaethau Rhanbarthol i'w Gweithredu)* gydag argymhellion ar sut i gyflawni'r nod hwnnw orau. I gefnogi'r adroddiad, ceir Banc Adnoddau sy'n ymddwyn fel arweinlyfr ar gyfer Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol a rhanddeiliaid ehangach. Mae'r ddogfen yn darparu gwybodaeth gefndir am gyfoeth o ddatrysiadau carbon isel, ochr yn ochr ag astudiaethau achos, syniadau am sut i'w hefelychu, ac argymhellion ar eu cyflwyno trwy Grwpiau Cynllun Gofodol Cymru.

[31] Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009
[32] P57, Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n UN: Cymru UN Blaned, Dogfen Startegaeth Wastraff Cymru, Mehefin 2010
[33] http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/100310landuseclimatechangegroupreporten.pdf





76. Yr egwyddorion cyffredinol wrth wraidd deiet carbon isel yw bwyta bwyd lleol, tymhorol, gwastraffu llai o fwyd, lleihau'r ynni a ddefnyddir wrth goginio a storio, lleihau'r teithiau i'r archfarchnad, a sicrhau bod yna gydbwysedd mewn bwydydd carbon uchel fel cig coch a chynhyrchion llaeth.

77. Law yn llaw â'r nwyddau a geir trwy weithgareddau defnydd tir – bwyd, gwlân, pren ac yn fwy diweddar, biodanwydd – mae rheoli tir yn darparu cyflenwad o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys rheoli'r hinsawdd, ansawdd dŵr, amddiffyn rhag llifogydd, llif dŵr arwyneb ac ailgyflenwi dŵr daear, ac amsugno gwastraff.

78. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod yna 547 miliwn o dunelli o garbon o fewn cyflenwad pridd a phlanhigion Cymru, gydag 80% mewn pridd a glaswelltir mynydd. Cyflwynir polisi'r UE ar gyfer pridd yn y *Strategaeth Thematig ar gyfer Diogelu Pridd* a fabwysiadwyd yn 2006. Diben y Strategaeth hon yw annog ymdrech bellach i reoli'r cyflenwad carbon mewn pridd yn well, a gwneud mwy o ymdrech i gynyddu faint sy'n cael ei ddal a'i storio hefyd. O 2012, bydd cynllun rheoli tir cynaliadwy newydd Glastir yn rhoi cefnogaeth i ffermwyr liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnal a gwella ansawdd dŵr a phridd yn ogystal ag amcanion mwy traddodiadol cynlluniau amaeth-amgylcheddol i ddiogelu a gwella cynefinoedd anifeiliaid gwyllt a nodweddion hanesyddol a'r dirwedd.

79. Mae'r Strategaeth Pysgodfeydd Cymreig[34] a'r amcan i gefnogi datblygiad pysgodfeydd dichonol a cynaliadwy fel rhan o polisi cyfannol cydlynol i ddiogelu'r amgylchedd a gefnogir gan gynllun gweithredu blynyddol[35]. Mae pysgodfeydd Cymreig yn cynnwys acwafeithrin, pysgodfeydd masnachol a pysgodfeydd hamdden. Mae amaethu pysgod cregyn - cregyn gleision yn neilltuol - yn weithgaredd sylweddol. Mae pysgodfeydd dwr croyw a ffocws penodol ar salmonids, brithyll mor a llysywen. Mae pysgota masnachol ar for yn cynnwys gweithgareddau a gwmpasir gan Polisi Cyffredinol Pysgodfeydd Undeb Ewropeaidd ond prif ffocws y llynges sy'n pysgota o Gymru yw draenog y môr a physgod cregyn, cranc a chimwch yn bennaf. Mae pysgodfeydd rhyngwlanol o cocos a cregyn gleision yn bwysig o safbwynt masnachol a threftadaeth i Gymru. Mae gweithredu'n dymhorol yn afantol i gyflawni cyflenwad cynaliadwy o bysgod o'r safon uchaf. Mae hwn yn cael ei reoli yn y lle cyntaf trwy ddeddfwriaeth a trwy ffyrdd eraill, er enghraifft, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi taflen[36] yn esbonio ble a pryd mae pysgod Cymreig tymhorol ar gael.

**Defnyddio Cynnyrch Lleol/Cwmnïau Cydweithredol/Ffermydd Cymunedol**

80. Nid yw ffactorau fel y tymor tyfu, ynni a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd a thaith bwyd yn ystyriaethau mawr ym meddwl y siopwr cyffredin wrth ddewis pa fwyd i'w brynu. Fodd bynnag, pan fydd digwyddiadau rhyngwladol dramatig mawr, fel methiant cnydau, yn gorfodi'r cyhoedd i feddwl am y newid yn yr hinsawdd byd-eang, gallai hynny newid. Mae disgwyl y bydd prisiau nwyddau'r byd yn parhau i raddol ostwng ond bellach ceir ofnau y gallai prisiau bwyd sylfaenol godi'n fawr - o ganlyniad i fwy o brinder dŵr, costau ynni uwch, twf yn y boblogaeth ac wrth gwrs, y newid yn yr hinsawdd. Mae'n bwysig inni ddeall a chadw golwg ar yr hyn sy'n bygwth ac yn herio'r systemau bwyd, a

[34] http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/publications/environmentcountryside/fisheries/?skip=1&lang=cy
[35] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/fisheries/walesfisheriesstrategy/implementationplan/implementationplan/?skip=1&lang=cy
[36] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/fisheries/directoryoffreshfish/freshwelshseafoodleaflet/?skip=1&lang=cy

pha mor abl y maent i'w gwrthsefyll[37]. Rhaid cofio mai dim ond rhan o'r ôl troed tŷ gwydr yw taith bwyd. Mae'n bwysicach annog pobl i roi mwy o sylw i fwyta bwyd tymhorol.

81. Mae masnach yn hanfodol i gynnal cyflenwad diogel o fwyd, o gofio pa mor ddi-ddal y gall y cyflenwad fod oherwydd ffactorau fel y tywydd a chlefydau. Mae system fasnachu yn helpu hefyd i sicrhau fod bwyd yn cael ei dyfu yn y lle mwyaf ffafriol ar gyfer cynhyrchu effeithlon (gan gynnwys o safbwynt nwyon tŷ gwydr). Wrth gwrs, y broblem fawr yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y cyflenwad a'r galw: o dan amodau tymhorol cyffredin, bydd y cyflenwad yn fwy na'r galw, fel arall byddem mewn sefyllfa beryglus iawn pan geid cynaeafau gwael. Nid taith bwyd yw'r ffactor fwyaf bob tro o ran faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr y mae math penodol o fwyd yn ei gynhyrchu. Mae allforion o Gymru yn werthfawr iawn i'r rheini y gallai'r newid yn yr hinsawdd amharu ar eu gallu i gynhyrchu a hefyd i'r rheini y byddai eu datblygiad yn elwa o fwyta mwy o'r eitemau hyn i wella eu deiet.

82. Nid yw ôl troed carbon bwyd lleol wastad yn llai nag ôl troed mewnforion. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth glir y gallai bwyd tymhorol a gwella cyflenwadau lleol wneud cyfraniad mawr at liniaru effeithiau nwyon tŷ gwydr. Er enghraifft, a chan sylweddoli nad yw archfarchnadoedd yn debygol o roi'r gorau i brynu sympiau mawr o nwyddau am y tro, mae marchnadoedd ffermwyr yn effeithio ar arferion prynu bwyd. Yn yr un modd, gall archfarchnadoedd roi llawer mwy o gynnyrch lleol ar eu silffoedd.

83. Dylid hyrwyddo cynhyrchion lleol (gan gynnwys ymdrechion caffael y sector cyhoeddus) trwy ddefnyddio meini prawf sy'n pwysleisio ffresni a thymor cynhyrchion.

84. Gallai awdurdodau lleol ymdrechu i fapio tir sy'n berchen iddynt a gellid ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd cymunedol, gan gynnwys ffermydd a gerddi cymunedol. Mae ffermio cymunedol yn ymdrin â materion fel diwylliant bwyd, iechyd a lles a diogelu cyflenwadau bwyd. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r gydnabyddiaeth a roddir i ffermio cymunedol yn *Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned*[38] a'r *Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Garddwriaeth Cymru*.

85. Mae *Polisi Cynllunio Cymru*, sy'n cynnwys polisïau defnydd tir Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei thanseilio gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) Mae NCT 16 - Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn cynnwys cyngor ar sut y dylid gweithredu polisïau lefel uchel ar lefel leol gan awdurdodau cynllunio lleol ac eraill. Mae NCT 16 hefyd yn anelu i integreiddio y cysylltiadau rhwng iechyd a lles, chwaraeon a gweithgaredd hamdden a datblygiad cynaliadwy yng Nghymru trwy ddatblygiad a defnydd cynllunio defnydd tir. Yn neilltuol, mae'n cynnwys gwybodaeth ar randiroedd.

[37] UK Food Security Assessment. Detailed Analysis. DEFRA Awst 2009.

[38] Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned. Strategaeth drosfwaol yw'r Cynllun Gweithredu hwn i hyrwyddo, cefnogi ac annog cymunedau yng Nghymru i dyfu eu bwyd eu hunain; hynny yn y cymunedau eu hunain ac yn achos unigolion yn eu gerddi. Cafodd y cynllun ei ddatblygu ar y cyd gan lywodraeth a rhanddeiliaid i ddiogelu cyflenwadau bwyd trwy ddarparu mwy o gynnyrch garddwriaethol lleol, gwella iechyd a lles a chynyddu'r nifer yng Nghymru fyddai â diddordeb mewn tyfu bwyd.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

### Cefnogi Masnach Deg a chynlluniau masnachu moesegol eraill

86. Cymru oedd y wlad gyntaf i ennill statws Cenedl Masnach Deg, sy'n cydnabod y cynnydd aruthrol sydd wedi cael ei wneud i ddatblygu ymwybyddiaeth a defnydd o gynhyrchion masnach deg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Fforwm Masnach Deg Cymru, a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad, wedi gyrru'r broses hon ymlaen trwy annog busnesau a sefydliadau i ddefnyddio cynhyrchion masnach deg. Bellach, mae sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys swyddfeydd y Llywodraeth, yn prynu amrywiaeth o gynnyrch masnach deg yn gyson, gan gefnogi cynhyrchwyr bach mewn gwledydd datblygol yn uniongyrchol.

87. Mae'r fenter Masnach Deg a chynlluniau masnachu moesegol mwy cyffredinol yn ffordd bwysig o hyrwyddo gweithgareddau cynhyrchu a marchnata mwy cynaliadwy, yn y byd datblygol yn arbennig, ond hefyd yn nes adref. Maent yn darparu buddion economaidd i gynhyrchwyr a buddion addysgol i ddefnyddwyr ac, felly, dylent chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo system fwyd mwy cynaliadwy.

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol: Datblygu cadwyni cynhyrchu a chyflenwi ecolegol effeithlon

88. Mae angen meithrin galluoedd o fewn y system gyflenwi (yn arbennig yn y sectorau ffermio a phrosesu) a fydd yn hwyluso'r gwaith o leihau'r carbon a ddefnyddir ac o leihau'r gwastraff a gynhyrchir. Er enghraifft mae Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn amcangyfrif bod 8.3 miliwn o dunelli o fwyd gwastraff yn cael ei daflu bob blwyddyn gan deuluoedd ym Mhrydain[39]. Credir bod 5.3 miliwn tunnel yn wastraff diangen. I roi cyd-destun, mae 25% o'r holl fwyd (gan gynnwys bwyd hylif a solid, ond nid diodydd) a brynir (yn ôl pwysau) yn cael ei wastraffu bob blwyddyn. O safbwynt bwyd a diod, mae'r 8.3 miliwn tunnell y flwyddyn o wastraff yn cynrychioli 22% o'r hyn a brynir (yn ôl pwysau). Ffrwythau a llysiau yw bron 40% o'r bwyd a deflir. Mae WRAP yn amcangyfrif bod y bwyd a deflir heb eisiau yn cyfateb i 20 Mt $CO_2e$ o allyriadau. Ar sail poblogaeth Cymru, dyna 1 Mt $CO_2e$ o wastraff heb eisiau. Byddai lleihau gwastraff yn lleihau allyriadau methan ar domennydd sbwriel, teithiau bwyd a chludiant, gan gael effaith dda ar argaeledd bwyd yn rhyngwladol ac ar sefyllfa ariannol pobl.

89. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phob rhan o'r sector bwyd i gefnogi datblygiad cyflenwad ecolegol effeithlon, gan adeiladu ar y cynlluniau sy'n bodoli eisoes lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys mesur y perfformiad ecolegol cyfredol o fewn pob sector yn well (e.e. ôl-troed carbon, dŵr a ddefnyddir, gwastraff a gynhyrchir a rheolaeth gwastraff) er mwyn gwella dealltwriaeth o'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ddefnydd tir, ynghyd â'r effeithiau a ddaw yn sgil newidiadau yn y ffordd y defnyddir y tir.

[39] WRAP Household Food and Drink Waste in the UK. Tachwedd 2009.

90. Mae'r Strategaeth Fwyd yn cefnogi ac yn ategu'r *Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad* i:

- hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ar ffermydd a mabwysiadu'r arferion gorau cyfredol er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (e.e. trwy greu set benodol ac wedi'i theilwra o wasanaethau cymorth trwy Cyswllt Ffermio);
- annog a hyrwyddo mentrau cydweithredol ar draws y gadwyn gyflenwi er mwyn cyd-wella effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi – gan gynnwys trafnidiaeth, y dŵr a'r ynni a ddefnyddir a lleihau gwastraff; ac
- adolygu a datblygu cynlluniau yn barhaus i gefnogi ac annog arferion ecolegol gwell (e.e. fel yng nghyflwyniad cynllun rheoli tir Glastir yn 2012).

91. Mae gan Gymru gyfle pwysig nawr i gofleidio dull mwy cynaliadwy o reoli tir, ac ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd hefyd. Gallai'r dull hwn nid yn unig ategu'r gwaith o farchnata cynhyrchion o ansawdd, gyda gwerth ychwanegol o Gymru yn y dyfodol, ond gallai hefyd gynnal twf twristiaeth yn ardaloedd gwledig godidog Cymru. "Mae polisïau amgylcheddol sydd wedi'u pwyso a'u mesur yn ofalus yn darparu cyfleoedd ar gyfer arloesi, creu marchnadoedd newydd a chynyddu cystadleurwydd trwy gael mwy o adnoddau effeithlon a chyfleoedd buddsoddi newydd" (Wim Kok; Lisbon Strategy for Growth and Employment 2004).

92. Er mwyn sicrhau systemau ecolegol mwy effeithlon, bydd y Strategaeth Fwyd yn cefnogi ymdrechion i gryfhau a datblygu'r seilwaith cyfredol yn y system fwyd (fel lladd-dai a ffatrïoedd prosesu bach – gan gynnwys mewn pysgodfeydd).

93. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod yna gyfaddawdu go anodd i'w drafod rhwng yr awydd i gynhyrchu mwy o fwyd yn lleol a galluoedd prosesu a'r nod o leihau'r galw carbon cyffredinol ar bob cam o'r system gadwyn fwyd. Felly, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r gwaith ymchwil parhaus i geisio sicrhau gwell cydbwysedd ar gyfer cynhyrchu, prosesu, marchnata a defnyddio bwyd ac unrhyw wastraff a waredir.

94. Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod hefyd bod angen cydweithio'n glos gyda chynlluniau hen a newydd, fel Cyswllt Ffermio a'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol, os oes potensial iddynt roi'r arfau a'r cyngor i gynhyrchwyr a phroseswyr bwyd allu gwneud penderfyniadau cynaliadwy tymor hir sy'n seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf am ecosystemau a'u gwasanaethau. Mae'r Strategaeth yn cydnabod ac yn cefnogi mentrau yn y maes hwn sy'n cael eu harwain gan y diwydiant.





**Gwastraff Bwyd**

95. Gan fod lleihau gwastraff bwyd yn fater sy'n anochel yn gysylltiedig â rheoli galw, bydd y Strategaeth yn annog ymdrechion i leihau faint o wastraff a gynhyrchir gan fanwerthwyr a safleoedd gwerthu bwyd ac mewn cartrefi (yn unol â'r nodau yn *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*).

96. Bydd yr ymdrechion i leihau effaith gwastraff bwyd yn cael hwb trwy gefnogi ffatrïoedd treulio bwyd anaerobig (er engraifft gydag arian o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol) a thrwy gynlluniau sy'n defnyddio gwastraff bwyd ar gyfer ynni.

97. Fel rhan o'n *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, bydd cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer sectorau sy'n flaenoriaeth. Bydd y rhain yn rhoi manylion y camau sydd angen i fusnesau, cymunedau a'r sector cyhoeddus eu cymryd i gyflawni'r polisïau a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen strategol. Bydd cynllun gan y sector cyfanwerthu a manwerthu *(Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gwasanaethu a Manwerthu Bwyd* i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2011) yn edrych ar wastraff bwyd a'r deunydd pacio cysylltiedig â ffyrdd o leihau'r gwastraff hwn yn y gadwyn gyflenwi, o'r gweithgynhyrchwyr i'r defnyddwyr. Bydd *Cynllun y Sector Trefol* yn edrych ar addysg defnyddwyr ac ar newid eu hymddygiad o ran lleihau gwastraff bwyd yn eu cartrefi. Disgwylir i'r ddau gynllun bennu camau gweithredu, ffyrdd i'w cyflawni a thargedau cadarn fydd yn cael eu monitro.

98. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyfrifo ôl-troed ecolegol i fesur faint o gynnydd y mae'n ei gwneud i fodloni'r ymrwymiadau datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Mae 15% o ôl-troed ecolegol Cymru yn dod o wastraff a gynhyrchir mewn gweithgareddau defnyddio bwyd, a 30% o effaith ôl-troed ecolegol gwastraff masnachol a diwydiannol yn dod o wastraff bwyd. Lleihau effaith gwastraff bwyd yw un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Wastraff. Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn hyrwyddo osgoi a lleihau gwastraff bwyd i ddechrau, ac yna symud gwastraff bwyd o'r safleoedd tirlenwi i dreuliad anaerobig.

**Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu**

99. Mae gan wyddoniaeth, ymchwil ac arloesi ran hanfodol a chanolog i'w chwarae i drechu'r sialensiau niferus sy'n wynebu'r sector bwyd yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn annog buddsoddiad preifat ond bydd hefyd yn annog ymrwymiad arian cyhoeddus i sicrhau bod yr ymdrech Ymchwil a Datblygu, mewn cydweithrediad â Chynghorau Ymchwil y DU, Cyrff Llywodraethol a Sefydliadau Addysg Uwch, yn cael ei thargedu at yr heriau sy'n wynebu'r system fwyd. Bydd y gwaith a wneir gan y diwydiant a'r adrannau ymchwil i ddiffinio'r blaenoriaethau ymchwil yn ceisio targedu: creu ynni adnewyddadwy; technolegau sy'n gwella cynhyrchiant; datrysiadau cipio carbon a charbon isel (gan gynnwys treuliad anaerobig); rheoli gwastraff; technolegau amgylcheddol eraill gwydn a'u cymhwysiad o fewn y gadwyn fwyd; ail-fformwleiddio bwyd er mwyn gwella ei gynnwys maethol; a chynlluniau trosglwyddo ac ehangu gwybodaeth i greu partneriaethau a chysylltiadau cryf rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch, sefydliadau ymchwil a'r sector preifat.

## (ch) SBARDUN ALLWEDDOL 4 - Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi



Egwyddorion

- Derbynnir bod cadwynau cyflenwi sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau agored a theg yn sail i system fwyd gynaliadwy.
- Bydd camau cydweithredu yn cael eu meithrin ar draws y cadwynau cyflenwi, a bydd yr egwyddorion a amlinellir yn y Strategaeth yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd;
- Bydd effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi yn cael ei phwyso a mesur yn ehangach yn hytrach na'i hystyried yn nhermau cadwyn cost-a-budd economaidd yn unig a dylai gynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd; a
- Dylid gwella galluoedd trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan fel y gall y sector ddarparu cynhyrchion sy'n gystadleuol, sy'n cyfateb i anghenion defnyddwyr ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy.





### Meithrin cysylltiadau cydweithredol

100. Mae'r Strategaeth Fwyd yn canolbwyntio ar anghenion pobl a gwerthoedd cymunedol ac yn ceisio meithrin diwylliant entrepreneuraidd o gydweithredu ac arloesed. Byddai hyn yn arwain at ddiwylliant mwy agored heb rwystrau stereoteip na dulliau sy'n ffafrio unrhyw un strwythur yn y diwydiant nac ym mhroffil cyflogaeth y rheiny sy'n ymwneud â phob cam o'r gadwyn gyflenwi.

101. Gall defnyddio dulliau cydweithredu llorweddol baratoi cynhyrchwyr, proseswyr a chwmnïau gwasanaethau bwyd lleol i gymryd rhan a chystadlu'n well o fewn cadwyni corfforaethol. Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu'r anawsterau cynhenid wrth geisio meithrin dulliau mwy cydweithredol a phartneriaethau o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'r Strategaeth Fwyd yn annog trafodaeth ar ble y dylid cyflwyno cydweithredu – yn y drafodaeth ar gynllun y PAC ar ôl 2013 ac yn y cynlluniau ar gyfer ehangu busnesau newydd a chyfredol. Dylai hyn ystyried proffil busnesau (yn arbennig y gyfran fawr o fusnesau bach) sy'n gweithredu yn y sector bwyd yma ar hyn o bryd.

102. Dylai'r egwyddorion hyn gynnwys pob adran o'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth heb eithriad (o'r cynhyrchwyr i'r defnyddwyr) a phob sector cynhyrchu ac ychwanegu gwerth sydd eisoes yn bodoli neu sy'n ymddangos (o gig coch a llaeth i arddwriaeth, dyframaethu a physgodfeydd arfordirol). Rhaid i'r dull bwysleisio ffermio aml-ddiben, cynhyrchu a phrosesu bwyd a chefn gwlad, a cheisio gwella amrywiaeth economaidd, cymdeithasol a biolegol adnoddau cefn gwlad.

103. Ariennir Cyswllt Ffermio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, a chyflwynir ef trwy Echel 1 o *Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013*[40]. Gan weithio'n agos a'i sefydliadau partner, mae'n darparu cymorth un i un, gwybodaeth, arbenigedd, hyfforddiant a gwasanaethau cynghori, sydd wedi'u teilwra at anghenion datblygol ffermwyr. Gall y cyngor ac arweiniad helpu teuluoedd fferm i redeg eu busnesau'n fwy effeithlon a diogelu dyfodol eu busnesau fferm.

104. Fel y dywedwyd eisoes yn Sbardun 3 (Cynaliadwyedd), mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod bod angen cydweithio'n glos gyda chynlluniau hen a newydd, fel Cyswllt Ffermio a'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol, os oes potensial iddynt roi'r arfau a'r cyngor i gynhyrchwyr a phroseswyr bwyd allu gwneud penderfyniadau cynaliadwy tymor hir sy'n seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf am ecosystemau a'u gwasanaethau.

105. Dylid cysylltu dull sy'n pwysleisio ffermydd aml-ddiben ac amrywiol gyda bwydydd sy'n tarddu o Gymru mewn marchnadoedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rhaid ystyried datblygu cynhyrchion a gwasanaethau gwell a fydd yn arwain at arferion a pherfformiadau gwell ar ffermydd ac ar draws y gadwyn gyflenwi, gan adlewyrchu dealltwriaeth well o ddefnyddwyr sydd eisiau mwy o amrywiaeth, yn y DU a thramor.

[40] Cymeradwywyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 yn ffurfiol gan Bwyllgor Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd ar 20 Chwefror 2008).

**Cryfhau menter a hyrwyddo gwaith ymchwil a datblygu**

106. Bwriad y Strategaeth Fwyd yw meithrin diwylliant entrepreneuraidd arloesol. Dylai'r modd yr ymdrinnir ag arloesed, er ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygiad technolegol a chynhyrchion newydd, gydnabod arloesed cymdeithasol ac arloesed yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau, er mwyn:

- cynnal bywyd cymdeithasol ac economaidd cymunedau; a
- chreu cyfleoedd i ddefnyddwyr weld manteision mwynhau cynhyrchion bwyd o Gymru.

107. Bydd rôl Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i ddylanwadu ar y sector a chryfhau menter mewn ffyrdd wedi'u targedu. Bydd hon yn parhau i weithio ar draws pob rhan o'r diwydiant wrth i'r blaenoriaethau a'r amodau economaidd newid.

**Datblygu Sgiliau**

108. Mae yna ddatblygiadau ar y gweill i gryfhau'r cysylltiadau rhwng polisïau sy'n ymwneud â sgiliau, addysg a bwyd ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn integreiddio datblygiad mewn cyfeiriad penodol.

109. Mae'r diwydiant yn credu bod parhau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau'n hanfodol ar gyfer gwella perfformiad y system gyflenwi bwyd. Er mwyn meithrin hyn ymhellach, rhaid parhau i wella lefel sgiliau a gwybodaeth y rheiny sy'n gweithio ym mhob rhan o'r system fwyd. Dylai cydweithio i ddatblygu sgiliau bwyd fod yn nodwedd o'r agenda sgiliau, sy'n dilyn 'Cytundebau Sgiliau Sector' y Cyngor Sgiliau Sector.

110. Nod y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid Llywodraeth Cynulliad Cymru (YESS), a ddatblygwyd gan yr Adran Materion Gwledig, yw cynnig cefnogaeth, arweiniad a chymorth grant, er mwyn denu a chadw sgiliau a doniau busnes pobl ifanc yn y diwydiant.

111. Mae ffermwyr ifanc yn ffactor allweddol yn natblygiad cynaliadwy'r sector ffermio. Mae'r Cynllun hwn yn helpu i hwyluso sefydliad ffermwyr ifanc (a ddiffinnir fel rhai dan 40) sydd â sgiliau a gallu digonol ac sy'n dechrau rheoli'r daliad am y tro cyntaf. Mae 'dechrau rheoli'r daliad' yn cynnwys y rheiny sydd wedi dechrau rheoli daliad am y tro cyntaf o fewn y 12 mis diwethaf.

112. Yn ogystal â chyfraniad y diwydiant a Llywodraeth ganolog, gallai sefydliadau ymchwil a Sefydliadau Addysg Uwch wneud cyfraniad pwysig a sylweddol o ran arloesi a sefydlu arferion gorau. Mae yna dair canolfan Fwyd hefyd: mae'r Ganolfan Dechnoleg Bwyd (Coleg Menai), Canolfan Fwyd Cymru (Horeb), a'r Ganolfan Diwydiant Bwyd yn UWIC (Caerdydd) yn gweithio gyda busnesau newydd i ddarparu cyngor ar ddechrau a chymorth i ddatblygu cynhyrchion newydd ar gyfer eu lansio yn y farchnad.





113. Mae pob Canolfan Fwyd wedi cael eu sefydlu gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i ddatblygu busnesau cynhyrchwyr bwyd. Priod waith y tair canolfan yw annog datblygiad y sector bwyd a chynnig cefnogaeth dechnegol ac ymarferol ar bob agwedd ar gynhyrchiant bwyd. Mae gan bob canolfan arbenigedd penodol a nifer o arbenigwyr technoleg bwyd.

**Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi – Cefnogi Entrepreneuriaeth**

114. Dylid adnabod ac annog mentrau entrepreneuraidd, boed y rheiny mewn busnesau newydd, cwmnïau sefydledig, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol neu yn y sector cyhoeddus. Y nod yn y fan yma fyddai ennyn hyder ymhlith unigolion a grwpiau sy'n ystyried mentrau cynhyrchu bwyd newydd sy'n cefnogi nodau strategol y diwydiant. Lle bo hynny'n briodol, caiff mwy ei wneud o enillwyr Gwobrau Cymru y Gwir Flas fel esiamplau o arfer da, i'w datblygu nhw'n fentoriaid ar gyfer cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd eraill.

115. Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i ddatblygu sgiliau ym mhob maes sy'n ymwneud â bwyd - gan gynnwys diwydiannau'r tir, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, y diwydiant manwerthu, diwydiannau dosbarthu a chludo nwyddau, a'r sector gweithgynhyrchu a phrosesu. Mae'r Strategaeth Fwyd yn annog cydweithredu parhaus ar draws y Llywodraeth a'r CCAUC, TUC Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a'r Cyngor Sgiliau Sector. Mae darparu addysg oedolion a dysgu seiliedig ar waith hefyd yn cael ei annog.

116. Yn yr hirdymor, byddai'r Strategaeth yn rhoi rôl gref a sylweddol i fentrau fel gweithgarwch y Canolfannau Bwyd a rhaglenni ymchwil Sefydliadau Addysg Uwch mewn meysydd fel:

- meithrin arloesedd;
- datblygu graddau busnes sy'n ymwneud â bwyd;
- darparu dull cydweithredol o ddatblygu sgiliau bwyd; a
- lledaenu a sefydlu arferion gorau a phrofiad ar draws y sector bwyd.

**Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu**

117. Mae angen i ddarparwyr sy'n ariannu Ymchwil a Datblygu a sefydliadau sy'n gallu datblygu agendâu ymchwil penodol ar sail egwyddorion ac anghenion strategol y sector weithio'n agos gyda'i gilydd yn y tymor byr a'r hirdymor.

118. Bydd y Strategaeth Fwyd yn annog mabwysiadu'n ehangach dechnolegau newydd a allai fod yn fuddiol o ran datblygu sector mwy cystadleuol, effeithlon a chynaliadwy. Er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu technoleg a dysgu, ac i annog prosesau 'rhannu gwybodaeth' sy'n fuddiol i bawb, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r diwydiant, yn annog pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith i adeiladu ar y cynlluniau rhannu ac ehangu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd hefyd yn ystyried cynlluniau ehangu yn y cyd-destun hwn er mwyn creu partneriaethau a chysylltiadau cryfach rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch, arbenigwyr annibynnol mewn ymchwil a datblygu, sefydliadau ymchwil a'r sector preifat.

## Datblygu cynhyrchion arloesol ac arbenigol

119. Dylai arloesedd a datblygiad arbenigol ddod yn rhan allweddol o'r diwydiant bwyd er mwyn cefnogi'r weledigaeth eang am fwydydd cynaliadwy, iachus ac o ansawdd uchel o Gymru. Felly, bydd y Strategaeth Fwyd yn annog datblygiad gwasanaethau cynhyrchion ar gyfer marchnadoedd newydd a chyfredol, gan annog a chryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysgol ac entrepreneuriaid.

## Partneriaeth gydweithredol

120. Wrth ddatblygu systemau bwyd lleol a chydweithredol, dylai'r *Ffocysau Bwyd*[41] fod yn gysylltiedig â'r ffocysau rhanbarthol a nodwyd yng *Nghynllun Gofodol Cymru*, gan annog, archwilio a threialu'r ffocysau er mwyn:

- creu cronfa gyffredin o adnoddau a gwybodaeth sy'n cynnal cydweithredu cynyddol a'r cysylltiadau rhwng pob agwedd ar y sector bwyd (gan gynnwys defnyddwyr); a
- lliniaru unrhyw 'dagfeydd' yn y gadwyn gyflenwi a phroblemau o ran cysondeb safon neu gyflenwad a allai godi ymhlith cynhyrchwyr bach a gwasgaredig.

121. Mae'r Strategaeth yn annog y diwydiant i edrych ar y gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd er mwyn canfod arbedion posibl. Yn arbennig, dylai archwilio ffyrdd y gellid annog mentrau ar draws y gadwyn gyflenwi i wneud arbedion a bod yn fwy cystadleuol, yn arbennig o ystyried bod cymaint o fusnesau bach yn y sector bwyd.

122. Dylai gwasanaethau ehangu wneud cyfraniad pwysig tuag at chwalu ffiniau ac annog dulliau newydd o gydweithio ymhlith cynhyrchwyr, er enghraifft, trwy fynd ati i sefydlu rhwydweithiau o gynhyrchwyr er mwyn sicrhau'r capasiti sydd ei angen i gyflenwi'r sector cyhoeddus a/neu'r sector gwasanaethau bwyd preifat.

41 Gweler Morley, A. Morgan, S. a K. Morgan (2008) *Food Hubs: The 'Missing Middle' of the Local Food Infrastructure?* (2008). Canolfan BRASS, Prifysgol Caerdydd







### Menter Cadwynau Cyflenwi Cynaliadwy (CCC)

Mae'r fenter CCC yn helpu mentrau bwyd a diod bach i gyrchu marchnadoedd newydd. Bydd y prosiect peilot, a lansiwyd ym mis Mehefin 2009, yn cael ei gynnal am 18 mis yn ne Cymru.

Mae'n datblygu ffyrdd arloesol o feincnodi a mesur cynaliadwyedd mewn busnesau bwyd a diod a ffyrdd ymarferol o alluogi busnesau i gofleidio ffyrdd cynaliadwy o weithredu.

Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar nifer o brosiectau amrywiol gyda busnesau cymwys i ddangos y buddion masnachol y gellir eu cael trwy fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o weithredu.

Dyma rai o'r prosiectau sydd ar y gweill:

- gweithio gyda grŵp o gynhyrchwyr gwin gan eu helpu i gael eu cydnabod am eu hymrwymiad at gynhyrchu a defnydd cynaliadwy;
- cefnogi datblygiad strategol hirdymor cwmni llaeth organig cydweithredol trwy ei gynorthwyo i ddatblygu cynhyrchion cynaliadwy;
- gwneud adolygiad o gynaliadwyedd cwmnïau cydweithredol cymunedol sefydledig a darparu ffyrdd i gynhyrchwyr lleol gyflenwi'r sefydliad hwn.

Bydd y gwersi a gaiff eu dysgu o'r fenter hon yn llywio ymyriadau a mentrau'r Llywodraeth i gefnogi busnesau bwyd a diod Cymru yn y dyfodol.

(Nodwch: prosiect Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi yw'r CCC ac mae wedi ei ariannu trwy Gynllun Datblygu Cefn Gwlad Cymru 2007-2013 a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.)

## (d) SBARDUN ALLWEDDOL 5 - Integreiddio




**Egwyddorion**

- Mae integreiddio'r polisi bwyd yn llorweddol mewn meysydd polisi eraill yn elfen allweddol o weithredu'r Strategaeth yn llwyddiannus; a
- Dylai polisïau sy'n effeithio ar fwyd gael eu hintegreiddio'n fertigol er mwyn sicrhau bod polisïau a fabwysiadir ar wahanol lefelau o'r ysgol lywodraethu'n cyd-fynd â'i gilydd a bod yr egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon ac a hyrwyddir yn y Strategaeth yn cael eu cynnwys yn holl gyd-destunau'r polisïau.



### Bwyd fel rhan ganolog o fywyd Cymru

123. Mae bwyd yn gwbl ganolog i bob un ohonom, felly nid yw'n syndod fod yna nifer o faterion cymdeithasol yn gysylltiedig â'r polisi bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - iechyd cyhoeddus;
    - newid yn yr hinsawdd;
    - adfywio;
    - allgau cymdeithasol;
    - tlodi; ac
    - addysg.

124. Ni all y Strategaeth Fwyd fynd i'r afael â phob un o'r materion hyn ar ei phen ei hun, ond bydd derbyn bod bwyd yn dylanwadu ar y meysydd pwysig hyn mewn polisi cyhoeddus yn caniatáu i'r Strategaeth Fwyd chwarae ei rhan. Yn yr un modd, ni all y Strategaeth fwyd ddatrys pob problem sy'n ymwneud â bwyd oherwydd hwyrach y byddai mentrau polisi eraill yn mynd i'r afael â nhw'n well.

125. Yr hyn sy'n glir yw
    (a) bod yna nifer o gysylltiadau amrywiol rhwng bwyd a meysydd eraill o bolisi cyhoeddus;
    (b) mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rhain mewn modd cyson a chydlynol;
    (c) lle bo'n dyheadau'n gwrthdaro, ein bod yn cydnabod hynny'n agored.

126. Gan ystyried un o'r meysydd hyn yn unig, yn gyffredinol, derbynnir bod yna berthynas rhwng bwyd, iechyd a lles. Mae mentrau'r polisi'n pwysleisio pwysigrwydd deiet iach wrth fynd i'r afael â'r prif anhwylderau iechyd, fel clefyd y galon, diabetes a rhai mathau o ganser. Mae manteision bwyd maethlon yn amlwg yn y cyd-destun hwn, nid yn unig o ran yr arbedion ym maes ymyriadau meddygol drud, ond o ran hybu iechyd y boblogaeth sy'n gweithio a lles cyffredinol cymunedau. Mae'n bwysig cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil hyn, yn arbennig efallai o ystyried y dystiolaeth sy'n nodi mai teuluoedd ar incwm is fyddai'n elwa fwyaf o allu cael digon o fwyd fforddiadwy, diogel a maethlon. Mae sicrhau bod bwyd o'r fath ar gael yn allweddol i welliannau ar gyfer y grŵp hwn, nad yw'n aml yn gallu siopa mewn lleoedd lle cynigir bwyd maethlon rhatach, weithiau am nad yw'r cysylltiadau trafnidiaeth sydd eu hangen ar gael.

**Bwyd ac Addysg**

Ym mis Chwefror 2010, Ysgol Gynradd Baden Powell yn Nhremorfa oedd y 1000fed ysgol i gymryd rhan ym menter Brecwast am Ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n neilltuo arian i ddarparu brecwast am ddim i ysgolion cynradd ledled Cymru. Bellach, mae oddeutu 66% o ysgolion cynradd Cymru'n cynnig brecwast am ddim i'w disgyblion.

127. Mae angen rhoi sylw i'r mecanweithiau sy'n helpu i gydlynu ac integreiddio. Rhaid i Strategaeth lwyddiannus:

- sicrhau cefnogaeth i'w gweledigaeth;
- cael ei dosbarthu'n eang ymhlith rhanddeiliaid;
- cysylltu â defnyddwyr bwyd a'u cefnogi; a
- hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng pobl sy'n gweithio ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi.

**Datblygu cysylltiadau llorweddol a fertigol**

128. Ystyried y meysydd amrywiol sy'n berthnasol i'r system fwyd sy'n rhan o gylch gwaith Awdurdodau Lleol mae'r rhain yn arbennig o bwysig yn y broses hon o gydweithio. Gall Awdurdodau Lleol wneud cyfraniad pwysig gan yrru'r sbardunau a nodir yn y Strategaeth Fwyd ac mae llawer o waith ar y gweill eisoes. Mae'r Strategaeth Fwyd yn annog Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau eraill megis Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ynghyd â grwpiau a phartneriaethau cymunedol, i gymryd rhan mewn nifer sylweddol o weithgareddau, meddwl am sut i ddatblygu ein diwylliant bwyd a datblygu dull strategol, integredig a chydlynol o gynllunio bwyd.

129. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i gryfhau ei chysylltiadau â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gyda Llywodraeth y DU a'r UE, a bydd yn parhau i ymwneud yn llwyr â'r agendâu bwyd ac amaethyddiaeth.

130. Dros amser, dylid ystyried datblygiadau a newidiadau yn y polisïau allweddol sy'n dylanwadu ar y sector, fel y PAC, a dylid ystyried unrhyw newid mewn cyfeiriad fel y gellir manteisio i'r eithaf ar bob cyfle. Bydd hyn yn cynnwys llywodraethau'n cydweithio ar gynhyrchu bwyd cynaliadwy, yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu ar fwyd, ac yn datblygu sgiliau o fewn y diwydiant bwyd.

**Meithrin gwaith da: cysylltu polisïau**

131. Un o nodweddion allweddol y Strategaeth hon yw annog integreiddio gwahanol rannau o'r polisi bwyd (megis maeth, hylendid bwyd a chynhyrchiant bwyd) a chysylltu polisïau bwyd gyda mentrau allweddol eraill (fel lleihau gwastraff ac ynni, a thwristiaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy). Bydd y Strategaeth Fwyd yn edrych hefyd ar ei chyfraniad i hyrwyddo adfywio ac ailddatblygu gwledig ac ailgysylltu canolfannau trefol gyda'r amgylchedd gwledig trwy gynyddu diddordeb a balchder yn y ddarpariaeth fwyd

132. Er mwyn integreiddio, mae angen ymdrech ymwybodol i adeiladu'r cysylltiadau hyn trwy weithio gyda'r cyhoedd, gyda'r rheiny sy'n gweithio yn y gadwyn fwyd a gydag ystod eang o randdeiliaid eraill i lunio agenda bolisi glir. Mae'r cysyniad o brawfesur bwyd yn berthnasol yma, gan alluogi Llywodraeth i oresgyn effeithiau andwyol diffyg integreiddio'r polisi bwyd yn y sector cyhoeddus. Trwy brawfesur bwyd yn effeithiol, bydd y Strategaeth Fwyd yn gallu datblygu i fod y Strategaeth Fwyd croes Lywodraethol gyntaf, yn hytrach na bod yn Strategaeth a allai gael ei chyfyngu gan gyllidebau a chylchoedd gwaith adrannol cyfyngedig.





**Datblygu cysylltiadau cryf rhwng y Strategaeth Fwyd a'r Strategaeth Datblygu Cynaliadwy**

133. Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r ddogfen hon, mae yna gysylltiadau cryf rhwng y Strategaeth Fwyd a datblygu cynaliadwy. Gall y Cynllun Datblygu Cynaliadwy dros Gymru, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*, ddarparu'r egwyddorion trefniadol y gellir eu defnyddio fel sail i gyflawni'r Strategaeth. Yn wir, mae integreiddio yn un o egwyddorion craidd y cynllun hwnnw. Fel y nodir yn y ddogfen:

*"…dim ond dull o weithredu sy'n gwneud y cysylltiadau rhwng heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac sy'n eu hintegreiddio'n effeithiol a fydd yn sicrhau datblygu cynaliadwy."*

134. Gwelir enghraifft o hyn yn y sector gwastraff bwyd[42], ble yr adlewyrchir manteision pob strategaeth effeithiol yng nghost ac arbedion deunyddiau crai, mewn gwastraff organig a llai o nwyon tŷ gwydr, a thrwy ailddefnyddio adnoddau'n well.

135. Argymhellodd y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd (LUCCG)[43] bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud y gorau o adnoddau'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod a'r LUCCG i weld a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon rhwng y ffermwr a'r defnyddiwr trwy leihau gwastraff a defnyddio llai o ynni yn y gadwyn brosesu a dosbarthu a thrwy addysgu defnyddwyr. Bydd hyn yn gofyn am gasglu a modelu data manwl o'r galw a'r cyflenwad er mwyn asesu'r potensial i leihau'r nwyon tŷ gwydr. Byddai gofyn gwneud hyn ar y cyd â'r diwydiant.

Y prif feysydd ar gyfer cydweithredu yw:

- casglu a dadansoddi data am y gadwyn fwyd o safbwynt y llif deunyddiau ac effaith hynny ar gynaliadwyedd. Er enghraifft, bu'r LUCCG yn dadansoddi cylchoedd bywyd nifer cyfyngedig o nwyddau ond heb gynnwys y bwydydd wedi'u prosesu a'u pacio sy'n ffurfio rhan mor bwysig o ddeiet y Cymry. Mae angen mynd i'r afael ag ôl troed carbon y deunydd hwn - hynny o safbwynt cynnyrch cwmnïau lleol a'r eitemau masgynhyrchu sydd ar silffoedd yr archfarchnadoedd;

- clustnodi ac asesu opsiynau ar gyfer lleihau effeithiau trwy leihau gwastraff a mabwysiadu prosesau mwy effeithiol. Ychydig a wyddys ar hyn o bryd am faint o ynni a dŵr a ddefnyddir yn y gadwyn cynhyrchu bwyd a faint o gynnyrch sy'n cael ei wastraffu. Does dim digon o ddata i allu mapio'n hyderus y llif adnoddau. Mae sialens yn awr felly i weld pa feysydd o fewn y gadwyn cynhyrchu bwyd y byddai'n bosibl defnyddio adnoddau'n well ynddynt mewn ffordd gost-effeithiol; a

- clustnodi ac asesu opsiynau ar gyfer rhoi ar waith, ymhlith eraill, cymhellion a rheoliadau i'r cyhoedd a gwaith cysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, mae angen gwaith i gryfhau a byrhau'r cadwyni bwyd a'u gwneud yn fwy tymhorol - hyn er mwyn lleihau allyriadau ond hefyd i wneud y gadwyn cyflenwi bwyd yn wytnach. Mae angen gwneud gwaith ymchwil i'r agweddau ymddygiadol a chymdeithasol allai dylanwadu ar ddefnyddwyr i ffafrio nwyddau bwyd ag iddynt lefel isel o nwyon tŷ gwydr corfforedig.

[42] Gweler y drafodaeth o dan yr Adran ar y Sbardun Cynaliadwyedd.

[43] Sefydlwyd y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2009 gan y Gweinidog Materion Gwledig. Cyflwynodd y Grŵp ei ganfyddiadau i'r Gweinidog ym mis Mawrth 2010. Mae'r adroddiad yn argymell set o fentrau i Gymru allu cynnal ei photensial o ran cynhyrchu bwyd tra'n torri ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae pwyslais yr adroddiad ar gynnal sectorau godro, defaid ac eidion dwys ond hefyd ar arallgyfeirio a chynyddu cnydau llysiau.

Bwyd a Thwristiaeth

Mae twristiaeth yn enghraifft ardderchog o faes a gaiff ei ddylanwadu gan y Llywodraeth ble y gall bwyd chwarae rhan allweddol. Gall bwyd a gwasanaethau bwyd o safon hybu enw da Cymru fel un o'r cyrchfannau twristiaeth gynaliadwy gorau. Gall darparu bwyd o Gymru mewn mannau twristaidd hyrwyddo datblygiad economaidd a hybu twristiaeth amgylcheddol a diwylliannol. Gall y dull hwn roi profiad gwerthfawr iawn i dwristiaid, gan eu hannog i ddychwelyd i Gymru.

Mae'r *Cynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd* yn annog defnyddio bwyd fel offeryn i wneud ardaloedd gwledig Cymru yn fwy atyniadol. Mae Sir Fynwy a Sir Benfro yn enghreifftiau da o hyn – dyma'r ddau le cyntaf i ennill Gwobr Cyrchfan Bwyd dan gynllun y Gwir Flas.

Yn ogystal â hyn, daeth gwaith ymchwil a wnaed gan Ymddiriedaeth Bwyd a Thir y Canolbarth yn 2006 i'r canlyniad fod 82% o'r ymwelwyr a arolygwyd yn credu bod darparu bwyd da a gynhyrchwyd yn lleol yn rhan bwysig iawn o'u profiad gwyliau a byddent yn fodlon talu hyd at 13% yn ychwanegol i brofi hynny.

(O'r *Cynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru*, 2009)

**Integreiddio - Gwneud i'r Strategaeth Fwyd weithio ar draws pob lefel o Lywodraeth**

136. Mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â pholisïau Awdurdodau Lleol a'r sector cyhoeddus yn gwneud datganiadau polisi bwyd credadwy a chyson. Er mwyn sicrhau bod gorgyffwrdd, dyblygu a chostau'n cael eu lleihau, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cysylltu â'r Awdurdodau Lleol a gweithio gyda nhw mewn modd cydlynol a strwythurol er mwyn datblygu polisi bwyd, trwy:

- werthuso cost a manteision cynllunio bwyd mwy integredig a chynhwysfawr; a
- gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu cynlluniau gweithredu integredig a strategol ar fwyd ar lefel Awdurdodau Lleol.

137. Unwaith y bydd cynllun gweithredu yn ei le, bydd y Strategaeth Fwyd yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso bob blwyddyn a bydd hyn yn cael ei wneud trwy waith partneriaeth rhwng Llywodraeth a'r diwydiant. Bydd cynnydd yn cael ei asesu'n feintiol ac ansoddol yn erbyn sbardunau allweddol a nodir yn y Strategaeth.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

**Newid y Fframwaith Rheoleiddio**

138. Mewn amser, bydd cyflawni'r Strategaeth Fwyd yn golygu newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â bwyd o bosibl. Er enghraifft, bydd dewisiadau deddfwriaethol yn cael eu hystyried a fyddai'n gofyn i brynwyr sefydliadol brynu canran benodol o fwyd a gynhyrchwyd yn lleol.

**Dulliau newid "ysgafn"**

139. Nid oes rhaid i bob newid fod yn un cyfreithiol. Gall dulliau 'ysgafnach', gan gynnwys datganiadau o arferion da, codau gwirfoddol, gwell addysg, a phartneriaethau cyhoeddus/preifat fod yn fecanweithiau cyflawni llawer mwy effeithiol. Gall y dull hwn fod yn arbennig o effeithiol pan mai'r nod yw integreiddio gwahanol feysydd polisi. Mae'r Strategaeth yn cefnogi defnydd llawer mwy creadigol o'r dulliau 'ysgafnach' hyn o fewn y cynlluniau gweithredu.

‘O gofio cymhlethdod y system fwyd ehangach, mae’n bwysig ein bod yn targedu’r dystiolaeth rydym yn ei chasglu fel ei bod yn ymarferol ac yn rhoi gwerth ein harian i ni’



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

## PENNOD 6
## Gweithredu – y camau nesaf

### Defnyddio Data

1. Yn ogystal â gweithio tuag at yr egwyddorion a’r nodau a amlinellir yn y ddogfen hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r diwydiant yn awyddus i gael gafael ar fwy o dystiolaeth gadarn er mwyn monitro a mesur cynnydd y sector bwyd. O gofio cymhlethdod y system fwyd ehangach, mae’n bwysig ein bod yn targedu’r dystiolaeth rydym yn ei chasglu fel ei bod yn ymarferol ac yn rhoi gwerth ein harian i ni. Rhaid casglu a chyflwyno’r data hwn mewn ffordd sy’n hygyrch i bob rhanddeiliad, a ddylai fod yn gallu ei ddefnyddio a’i addasu i’w hanghenion eu hunan.


2. Mae heriau’n wynebu datblygiad data cadarn ar gyfer y sector bwyd. Er bod nifer o’r heriau hyn yn gyffredin i’r rhan fwyaf o weithgareddau cymdeithasol-economaidd, daw mwy o broblemau i’r golwg yn sgil ehangder a chymhlethdod y system fwyd. Ymhlith pethau eraill, mae deall ein system fwyd yn golygu bod angen ystyried:
   - llifoedd bwyd ar draws ffiniau - yng nghyd-destun y DU, yr UE ac yn fyd-eang;
   - effaith ein gweithrediadau ni ar eraill - e.e. gallai aredig glaswelltir er mwyn cynhyrchu mwy o gynhyrchion garddwriaeth i ddiwallu anghenion bwyd arwain at ryddhau carbon o’r pridd;
   - busnesau sydd wedi’u cofrestru mewn un lle ond sy’n gweithredu mewn sawl ardal (yn aml ledled y DU);
   - busnesau sydd â gweithgarwch bwyd sylweddol heb fod yn ganolog i’w gwaith (e.e. sefydliadau â ffreuturau, siopau pob peth, digwyddiadau chwaraeon);
   - tueddiadau yn ymddygiad defnyddwyr; a’r
   - ffin rhwng gwahanol sectorau - h.y. diffinio lle mae ‘bwyd’ yn diweddu ac ‘amaethyddiaeth’, ‘gwastraff’, ‘trafnidiaeth’, ‘manwerthu’, ‘twristiaeth’ neu ‘iechyd’ yn dechrau.

3. Fel y mae’r ddogfen hon yn ceisio esbonio, mae deall y system fwyd yma’n ymwneud hefyd â deall ei safle a’i pherfformiad o fewn y cyd-destun ehangach yn y DU ac yn rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru’n parhau i weithio’n agos â phroses dangosyddion bwyd cynaliadwy’r DU er mwyn sicrhau bod Cymru’n cael ei chynnwys yn llawn yn y DU wrth feincnodi yn Rhyngwladol.

### Monitro ac Adnewyddu Strategol

4. Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno Strategaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu’r sector bwyd dros y degawd nesaf. Mae’r cymhlethdodau cynhenid, y pwysau ar adnoddau a’r ansicrwydd yn y system fwyd yn cyfyngu’r ddogfen hon i gyfres o weledigaethau strategol, yn hytrach na mentrau, cynlluniau gweithredu neu gynigion manwl. Lluniwyd y Strategaeth hon fel proses waith sy’n golygu ail-arfarnu’n barhaus a fydd yn cael ei diweddaru’n gyson, a fydd yn cael ei defnyddio fel canllaw, ac yn gweithio ochr yn ochr â chynlluniau gweithredu strategol cyfredol y sector bwyd a’r system fwyd yn fwy cyffredinol a gyda chynlluniau’r dyfodol.

5. Fel y dangosir yn y ffigur isod, y Strategaeth Fwyd yw'r elfen gyffredin mewn set ehangach o arfau polisi ar gyfer y sector bwyd.




6. Mae'r Strategaeth Fwyd traws-fwaol hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y ddeng mlynedd nesaf. Lle nodir camau gweithredu penodol, gellir datblygu'r rhain trwy weithio'n agos â'r diwydiant bwyd a gyda rhanddeiliaid eraill.

7. Mae yna brosesau llywio tymor byr ar y gweill i sicrhau bod y Strategaeth yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol ac, yn ogystal â'r gwaith o fonitro dangosyddion strategol a amlinellir uchod, bydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod yn parhau i ddarparu trosolwg strategol parhaus. Cynhelir adolygiad blynyddol i fonitro a diweddaru'r Strategaeth, gyda phob partner yn cyfrannu at ddatblygu'r system fwyd er mwyn sicrhau ei bod hi'n parhau i ddatrys yr heriau sy'n codi ac yn caniatáu i flaenoriaethau strategol gael eu halinio'n briodol.

**Camau nesaf**

8. Fel y sefydlwyd eisoes, mae'r diwydiant bwyd a'r system fwyd yn gymhleth ac yn gydgysylltiedig. Gan ein bod yn mynd ati i gymeryd trywydd newydd gyda'n partneriaid o fewn ag allan o Lywodraeth, mae'n bwysig ein bod yn unfryd ynglŷn â cyfeiriad, amcanion a sbardunau newid fel proses arwahan i weithredu. Mae cytuno ar egwyddorion tymor hir o fath newid mawr ac uchelgeisiol yn ein galluogi i adeiladu cynllun gweithredu mwy effeithiol a ffocws pendant gyda rhaglen linell amser a thargedau carreg filltir briodol. Ni all y Llywodraeth wneud hyn ar ei phen ei hun, a bydd gofyn i'r cynllun gweithredu nodi'r hyn y bydd gofyn i'r diwydiant a hi ei hunan ei wneud.

9. Bydd gan y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP) rôl blaenllaw i gytuno'r cynllun gwiethredu hwn, a'r dull partneriaeth o'i gyflawni. Cydnabyddir bod y materion a gyfeirir yn y Strategaeth hon yn hanfodol bwysig, ac o'r herwydd bydd cyhoeddi Cynllun Gweithredu drafft yn flaenoriaeth i'r FDAP yn 2011.





## PENNOD 7
## Crynodeb o gyfeiriad y Strategaeth Fwyd

1. Bydd bwydydd lleol a bwydydd sydd wedi'u brandio'n lleol o Gymru yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo mewn marchnadoedd yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn ehangach.
2. Bydd hunaniaeth bwydydd o Gymru yn cael ei chryfhau trwy set unigryw o ddangosyddion tarddle a ddylai fagu hyder yn rhinweddau cysylltiedig bwyd o Gymru.
3. Bydd y sector cyhoeddus yn defnyddio pŵer prynu i gefnogi datblygiad strategol y sector bwyd.
4. Bydd diwylliant bwyd Cymru yn cael ei gryfhau a'i ddefnyddio i ddatblygu galw cyson am fwyd o ansawdd sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys iach. Dyma un o gynhwysion pwysicaf system fwyd cynaliadwy.
5. Bydd twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at farchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru.
6. Mae'r Strategaeth Fwyd yn pwysleisio ac yn derbyn bod angen i gadwyni bwyd cynaliadwy fod ag effeithlonrwydd ecolegol yn rhan ganolog ohonynt.
7. Bydd y sector bwyd yn cael ei annog i fod yn gyfrifol am gyfrannu cymaint â phosibl at liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd yn ddomestig.
8. Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod cyfrifoldebau moesol Cymru o fewn system fwyd byd-eang. Bydd hyn yn cynnwys wynebu'r her o sicrhau bod pawb, waeth beth yw eu hincwm, yn gallu cael y deiet cytbwys, iachus sydd ei hangen arnynt.
9. Derbynnir bod cadwyni cyflenwi sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau agored a theg yn sail i system fwyd cynaliadwy.
10. Bydd camau cydweithredu yn cael eu meithrin ar draws y cadwyni cyflenwi, a bydd yr egwyddorion a amlinellir yn y Strategaeth yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd.
11. Bydd effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi yn cael ei phwyso a mesur yn ehangach yn hytrach na'i hystyried yn nhermau cadwyn cost-a-budd economaidd yn unig a dylai gynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd.
12. Dylid gwella galluoedd trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan fel y gall y sector ddarparu cynhyrchion sy'n gystadleuol, sy'n cyfateb i anghenion defnyddwyr ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy.
13. Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio i mewn i feysydd polisi perthnasol a dylai hyn fod yn elfen allweddol o weithrediad llwyddiannus y Strategaeth.
14. Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio ar wahanol lefelau o lywodraethu fel eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd ac fel bod yr egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon ac a hyrwyddwyd yn y Strategaeth yn cael eu cofleidio ar draws cyd-destun y polisi

# PENNOD 8
## Rhestr Eirfa a Diffiniadau

| | |
|---|---|
| AAUDCU | Adran Amaeth yr Unol Daleithiau a'r Cenhedloedd Unedig |
| AEaTh | Adran yr Economi a Thrafnidiaeth |
| APADGOS | Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| ASB | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| BD | Bwyd a Diod |
| BRASS | Perthnasoedd Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CFP | Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Undeb Ewropeaidd) |
| CIOFf | Cyfanswm Incwm o Ffermio |
| CO2e | Cyfwerth Carbon Deuocsid |
| COoL | Labelu Tarddiad Gwlad |
| CUCUB | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned |
| DEFRA | Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| FAO | Sefydliad Bwyd a Diod y Cenhedloedd Unedig |
| FfBCh | Y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad |
| GAT | Gwarant Arbenigedd Traddodiadol |
| GDTNH | Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd |
| GYC | Gwerth Ychwanegol Crynswth |
| HAG | Hector Global |
| HCC | Hybu Cig Cymru |
| PAC | Polisi Amaethyddol Cyffredin (Undeb Ewropeaidd) |
| PDO | Enw Tarddiad Gwarchodedig |
| PGI | Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig |
| SAU | Sefydliadau Addysg Uwch |
| UWIC | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |
| WRAP | Rhaglen Weithredu Adnoddau Gwastraff |

1. **Ffurfio Cyfalaf:** Trosglwyddo cyfalaf o gartrefi a llywodraethau i'r sector busnes, gan achosi i allbynnau gynyddu ac i'r economi ehangu.
2. **Cydweithredu:** Defnyddir cydweithredu yn y ddogfen hon i nodi'r math o waith a gweithredu ar y cyd y gallai sefydliadau a busnesau ei wneud er mwyn cyflawni nodau cyffredin. Defnyddir cydweithredu i nodi bod pob partner yn cymryd rhan ac yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni nod cyffredin. Yn hyn o beth, mae pob cyfranogwr yn mynd i'r afael â'r dasg dan sylw. Mae cydweithredu hefyd yn nodi gwaith ar y cyd a allai fod yn gyfyngedig o ran amser, wedi'i ganolbwyntio ar nodau penodol a ddiffiniwyd yn glir, ac ar nodau sydd y tu allan neu'n ychwanegol at faes gweithredu arferol y cyfranogwyr.
3. **Cystadleurwydd:** Ystyrir cystadleurwydd o ran busnes, lle gallai busnesau fod â'r gallu i gyflenwi bwyd fforddiadwy gyda gwaelodlin costau uwch o bosibl.
4. **Effeithlonrwydd ecolegol:** Cynhyrchu a throsglwyddo bwyd diogel, maethlon yn effeithiol trwy'r gadwyn gyflenwi, tra'n lleihau mewnbynnau, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

5. **Y Sector Bwyd a Diod:** Oni nodir yn wahanol, cyfeirir at y sector Bwyd a Diod yn y ddogfen hon ac yn y rhan helaeth o ystadegau'r Llywodraeth heb gynnwys ffermio a physgota ond gan gynnwys diwydiannau bwyd a diod yn cynnwys: gweithgynhyrchu bwyd a diod, cyfanwerthu, manwerthu a gwasanaethau bwyd (bwytai, ffreuturau, arlwyo a bariau).
6. **Y Sector Gwasanaethau Bwyd:** Mae'r sector gwasanaethau bwyd yn cynnwys pob safle gwerthu sy'n ymwneud â "darparu prydau bwyd y tu allan i'r cartref" (IGD, 2005).
7. **Y System fwyd:** Mae'r system fwyd yn wahanol i'r sector bwyd yn y Strategaeth. Mae'r sector bwyd yn cyfeirio at y sector masnachol sy'n cynnwys gweithgareddau economaidd cynhyrchu, gweithgynhyrchu, dosbarthu, paratoi bwyd, manwerthu a gwasanaethau bwyd. Mae'r system fwyd yn cynnwys y sector bwyd ac effeithiau'r gwahanol rannau o'r sector ar yr amgylchedd naturiol ac ar gymdeithas.
8. **Hectar Global (hag):** Caiff hectar global ei ddiffinio fel hectar o dir sy'n cynhyrchu'n fiolegol gyda chynhyrchiant ar lefel cyfartalog byd-eang mewn blwyddyn benodol. Mae tir sy'n cynhyrchu'n fiolegol yn cynnwys ardaloedd megis tir cnydau, coedwigoedd, a thir pysgota, ac yn eithrio diffeithdiroedd, rhewlifau, a chefnforoedd agored. Defnyddir yr hectar global i fesur Ôl-troed Ecolegol a bio-gynhwysedd dros amser ac ar gyfer ardaloedd ledled y byd. Gan fod cyfanswm cynhyrchiant byd-eang yn newid dros amser, mae cyfanswm y deunydd ffisegol sy'n cael ei gynhyrchu gan un hectar global yn newid dros amser hefyd.
9. **GVA:** Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA – *Gross Value Added* yn Saesneg) yn mesur y gwahaniaeth rhwng gwerthiannau'r sector a gwerth y mewnbynnau a brynwyd ganddo. Mae'n fesur o werth yr economi. Yn syml, GYC yw gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir gan faes, sector neu gynhyrchydd, heb gynnwys cost y deunyddiau crai a mewnbynnau eraill a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu.
10. **Bwyd Lleol:** Bwyd sy'n cael ei gynhyrchu a'i farchnata'n lleol.
11. **Bwyd Ardal:** Mae bwyd ardal yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â lleoliad penodol (fel arfer trwy ei frandio'n PDO/PGI) ond fe allai gael ei gludo cryn bellter a'i werthu mewn marchnadoedd pell i ffwrdd.
12. **Ansawdd bwyd:** Mae'r Strategaeth yn defnyddio'r term 'Ansawdd' i gyfeirio'n eang at fwydydd sydd â nodweddion cynhyrchion o ansawdd o safbwynt maeth a blas da, sy'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu ecolegol cadarn.
13. **Gwytnwch:** Gwytnwch system fwyd yw mesur o'i gallu i sicrhau bod bwyd ar gael yn yr hirdymor gan ystyried yr ansicrwydd cynyddol (yn fyd-eang).
14. **Cynaliadwyedd:** Ystyrir system fwyd gynaliadwy fel system sy'n gallu cyflenwi bwyd diogel, iach, darparu manteision cymdeithasol cadarnhaol ac effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd.
15. **Cyfanswm Incwm o Ffermio (CIFF):** Cyfanswm Incwm o Ffermio yw'r incwm a gynhyrchir gan gynhyrchiant o fewn y diwydiant amaethyddol, gan gynnwys cymorthdaliadau. Mae'n cynrychioli elw busnes a thâl am waith a wnaed gan berchnogion a gweithwyr di-dâl eraill. Nid yw'n cynnwys gwerth asedau, gan gynnwys stoc, oherwydd y newidiadau mewn pris. Mae'n cynnwys gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig ag amaeth, fel prosesu pellach neu weithgareddau twristiaeth pan na ellir gwahanu'r rhain oddi wrth y busnes amaethyddol.



Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 | 2020

# ATODIAD

## 1) Y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod

a. Sefydlwyd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (a elwid yn Grŵp Cynghori y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth ynghynt) dros ddegawd yn ôl. Mae gan y Bartneriaeth Cynghori'r prif gyfrifoldebau canlynol:

- Rhoi cyngor arbenigol i'r Llywodraeth ar bob mater sy'n ymwneud â bwyd;
- Cynorthwyo a bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Polisi a Strategaeth sy'n ymwneud â bwyd;
- Monitro cynlluniau gweithredu penodol; ac
- Ymddwyn fel "llysgennad" i'r Llywodraeth ar faterion Bwyd, ond heb gyfrifoldebau gweithredol.

b. Gwahoddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yr aelodau arbenigol i ymuno â'r Bartneriaeth wedi proses benodi gyhoeddus. Mae nifer o'r aelodau hefyd yn cadeirio is-grwpiau arbenigol sydd ag oddeutu 20 o aelodau ar gyfartaledd. Nid oes angen i'r aelodaeth ehangach hon fynd trwy broses benodi gyhoeddus. Darperir yr ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth weithredol ychwanegol gan staff yr Adran Materion Gwledig a Treftadaeth. Mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Yr is-grwpiau sy'n ymdrin â'r meysydd a amlinellir isod ar hyn o bryd – ond mae yna adolygiad yn cael ei gynnal o strwythur y bartneriaeth a allai arwain at newidiadau o 2011 ymlaen.

c. Mae'r pynciau y mae'r grwpiau'n ymdrin â nhw'n cynnwys Llaeth, Addysg a Hyfforddiant, Pysgodfeydd a Dyframaethu, Garddwriaeth, Cynhyrchion organig, Cig Coch a Datblygu Masnach. Yn ogystal â hyn, ceir pedwar grŵp rhanbarthol (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain) sy'n dod â chwmnïau, sefydliadau, cyrff gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ynghyd. Eu prif orchwyl yw sicrhau cyfathrebu effeithiol ar faterion bwyd ledled y wlad.

### Aelodaeth y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod

Dr. Haydn E. Edwards
Alison Lea-Wilson
David Lloyd
Dr. Shyam Patiar
Gwyn Thomas MSc (Marchnata)
Huw Rees
Jenny Davies
Jeremy Percy
Jo Hughes
Gwyn Angell Jones
Kate Morgan
Katie Palmer
Phil Stocker
Yr Athro. Nicholas Lampkin
Prof. Peter Midmore
Dai Davies OBE
Richard Parry Hughes
Roger Hughes
Terrig Morgan MBE

**2) Canolfan Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer Perthnasoedd Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS) ym Mhrifysgol Caerdydd.**

Roedd y tîm o fewn BRASS a gomisiynwyd i ddatblygu'r Strategaeth yn cynnwys saith academydd profiadol â llwyddiant blaenorol mewn amrywiaeth eang o feysydd yn ymwneud â bwyd. Bu modd i’r arbenigwyr craidd yma ddefnyddio adnoddau ehangach Grŵp Bwyd BRASS, rhwydwaith o tua 20 o ymchwilwyr bwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, ynghyd â changen Ymchwil ac Ymgynghori pwrpasol y Brifysgol.

### Aelodau tîm BRASS

Yr Athro. Terry Marsden
Dr. Adrian Morley
Professor Kevin Morgan
Yr Athro. Robert Lee
Dr. Roberta Sonnino
Dr.Selyf Morgan
Kate Bailey